




GWELD YN BELL?

"... Onid yw yn amser i'n harweinwyr ddeffro i ddatblygu rhyw ddiwydiannau yng Nghymru? ... Beth fydd i weithiwr ei wneud ym mhen hanner can mlynedd eto? Ni fydd ein gwlad ddim ond parlwr i gyfoethogion Lloegr. A beth a ddaw o'r Iaith Gymraeg wedyn?"

Hugh Evans (Cwm Eithin) yw testun colofn D T Davies 'Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog' [tt. 10-12]. Yn ogystal â rhoi darlun difyr o'i fywyd a'i waith, mae'r colofnydd yn dyfynnu'r uchod a sgrifennwyd yn y 1920au ... mae 50 mlynedd wedi mynd heibio bellach!

YN Y RHIFYN HWN

- 2 Cyfrol DJ James, Pantyfedwen/Clwb 200
- 3 'Gair o Gysur' gan Elin Angharad
- 4 'Yma ac Acw-o'r Sarnau a Thu hwnt' [EP]
- 5 'Hedfan'
- 6 Bryn Pader, Llanfor/Ty'n y Berth, Cynwyd
- 7 Garddio Gwyrdd [R]/Siop Sgidiau Cynwyd
- 8 Y Gornel Greadigol [GE]
- 9 Y Gornel Greadigol [parhad]
- 10 'Canmolwn ...' Hugh Evans [DTD]
- 11 [yn parhau]
- 12 [yn parhau]
- 13 'Pigion cyn y Pigiad' (dyddiadur Covid) [MT]
- 14 Merched Gaergoed/Cyngor Plwy Cynwyd/
Llwyddiant Erin Llwyd
- 15 'Molawd Cynwyd' 1901
- 16 'Prince of Wales' Cynwyd/ Croesair 289



RALI FAWR NID YW CYMRU AR WERTH

Delyth Jewell,
Dafydd Iwan a mwy!

10 Gorffennaf 2021
1 o'r gloch
Argae Tryweryn

PETHE AWST/MEDI

ERTHYGLAU YNG NGOFAL

TÎM GOLYGYDDOL

CWMTIRMYNACH

i'w cyflwyno erbyn

10fed o Orffennaf

Ar werth o'r 23ain o Orffennaf



COFWCH

Gellir gweld PETHE PENLLYN ar-lein erbyn hyn. Cliciwch ar y ddolen yma i gael mynediad i'r safle perthnasol:

bro.360.cymru/papurau-bro

CLWB 200

Mae enwau enillwyr Gorffennaf ar dudalen 2

TŪM GOLYGYDDOL CYNWYD A GLANRAFON
FU'N GYFRIFOL AM GASGLU'R
ERTHYGLAU A'R LLUNIAU
AR GYFER Y RHIFYN HWN

SWYDDOGION:

CADEIRYDD:
NIA DAVIES, FRONGOCH 01678 521140

TRYSORYDD:
DILYS EVANS, TIR Y DAIL, CAE CROES, Y BALA
01678 521475

YSGRIFENNYDD:
JEAN ROBERTS, TREFAN, PARC, Y BALA
01678 540359

TREFNYDD GWERTHIANT:
GWYN SION IFAN 01678 520658

TREFNYDD HYSBYSEBION:
NEREUS 01678 521229

TANYSGRIFIADAU:
DYLAN N. JONES, TANYFRON, 105 STRYD FAWR,
Y BALA 01678 521229

~~~~~  
Cysodir PETHE PENLLYN gan Nereus  
01678 521229  
e-bost: dylannereus@btinternet.com

Ariennir Pethe Penllyn  
yn rhannol gan  
Lywodraeth Cymru



**HYSBYSEBWCH YN  
PETHE PENLLYN**

\*\*\*\*\*

**CYSYLLTWCH Â'N SWYDDOG  
HYSBYSEBION**  
dylannereus@btinternet.com

**Noel Lloyd**

Saer Coed

unrhyw orchwyl

gosod lloriau, ffenestri/drysau UPVC,  
gosod ceginau a'u hailwampio  
(drysau, worktops ayyb)

~Ffoniwch~

01678 521252/07837 324858

**OWAIN SION GWENT  
PEINTIWR AC  
ADDURNWR**

Pendraw, Llanuwchllyn,  
Y Bala Gwynedd  
LL23 7TW

Ffôn: 01678 540283  
Symudol: 07891 459699

e-bost: owainsionwent@hotmail.co.uk



**Peredur Roberts Cyf.**

Cyfarwyddwr Angladdau  
Gwasanaeth Personol  
Capel Gorffwys Preifat

Derwgoed  
Llandderfel

Y Bala  
LL23 7HG

01678 530239  
07544 962669

Gweithdy'r Gof  
Pentrefoelas

Betws y Coed  
LL24 0HY

01690 770408  
07884 025520



**DJ JAMES  
Ei Fywyd  
A'i Ddylanwad**

**Annwyl Ddarllenwyr**


Hoffwn dynnu eich sylw at gyfrol arbennig, **Syr DJ James: Ei Fywyd a'i Ddylanwad**, fydd yn cael ei chyhoeddi cyn hir gan Ymddiriedolaeth James Pantyfedwen.

Cyfrol yw hon yn cronicle hanes Syr David James, sylfaenydd yr Ymddiriedolaeth, ac yn rhannu ychydig o wybodaeth am y gwaddol a adawodd ef i Gymru a'i phobl, gwaddol sy'n parhau i gael ei dosbarthu mewn grantiau i bobl Cymru'n flynyddol.

Awdur y gyfrol yw Richard Morgan, fu'n Ysgrifennydd Gweithredol yr Ymddiriedolaeth am dros ddeng mlynedd ar hugain, ac a fu'n ddiwyd iawn dros y blynyddoedd diwethaf yn casglu gwybodaeth a lluniau ac yn ysgrifennu'r hanes.

**Rydym yn y broses o gasglu tanysgrifiadau ar gyfer y gyfrol (pris £18 yn cynnwys postio), a byddwn yn cynnwys enwau'r holl danysgrifwyr yn y gyfrol a brynir ganddynt. Os hoffech danysgrifio, gofynnwn i chi gysylltu â Swyddfa Pantyfedwen cyn gynted â phosibl, ac erbyn 16 Gorffennaf fan bellaf. Gweler y manylion cyswllt isod.**

Yn gywir  
*Gwenan Creunant*  
Ffôn: 01970 612806  
E-bost: post@jamespantyfedwen.cymru



**Morfudd Roberts, Bodilan, Y Bala**

Hoffem ddiolch yn ddifuant i Eirian Jones a'r teulu am rodd hael i goffrau PETHE PENLLYN am gynnwys teyrnged i'w mam, y ddiweddar Mrs Morfudd Roberts, Bodilan, Y Bala yn Rhifyn 284 o'r papur.

**Brenda Nant Hir**

Hoffem ddiolch yn ddifuant i Annie J Davies a'r teulu am rodd hael i goffrau PETHE PENLLYN am gynnwys teyrnged i'r ddiweddar Brenda Davies, Gwynllys, Frongoch yn Rhifyn 288 o'r papur.

**YN EISIAU**

Byngalo yn Y Bala,  
i'w rentu neu i'w brynu,  
gan gwpl lleol.

**Cysyllter â:**  
07979 217143

**CLWB 200**

GORFFENNAF 2021

|     |     |                        |
|-----|-----|------------------------|
| £20 | 185 | Beti Richards          |
| £15 | 89  | Gareth Williams        |
| £10 | 114 | Janice Roberts         |
| £10 | 46  | John a Megan Humphreys |

**Rhestr 2020/21**

**GWOBRAU'R CLWB  
ETO ELENI YW**  
£20, £15, £10 a £10

**RHIFYN RHAGFYR/IONAWR**  
£100, £75, £50 a £50



# Cefnogi Siaradwyr Newydd ... yn eich bro

**Ulythyr**

**Ar ddydd Sadwrn, 25 Medi, bydd Cymdeithas yr Iaith yn cynnal digwyddiad 'Cefnogi Siaradwyr Newydd ... yn eich bro'.**

Ar y diwrnod hwn, gobeithiwn y bydd digwyddiadau yn cael eu cynnal ledled Cymru sy'n rhoi cyfle i ddysgwyr a Chymry Cymraeg ddod ynghyd mewn gweithgarwch i ddarganfod mwy am yr ardal ble maent yn byw. Gall y digwyddiad fod yn daith gerdded yn yr ardal, ymweliad i ryw le o ddiddordeb, sgwrs gan hanesydd lleol, taith o amgylch tref benodol – unrhyw beth fyddai'n tynnu siaradwyr Cymraeg newydd mewn i'n cymunedau.


Gobeithir wedyn y bydd pawb yn dod ynghyd dros Zoom gyda'r nos ar gyfer noson gymdeithasol.

Rydym felly yn chwilio am unigolion sy'n fodlon cymryd cyfrifoldeb dros drefnu digwyddiad yn eu hardal nhw. Cysylltwch â swyddfa'r Gymdeithas 01970-624501 neu [post@cymdeithas.cymru](mailto:post@cymdeithas.cymru) os am fwy o wybodaeth neu os am roi eich enw ymlaen i drefnu digwyddiad.

Diolch  
**Nia Llywelyn,**  
 Swyddog Dysgwyr Cymdeithas yr Iaith  
 d/o Cymdeithas yr Iaith  
 Canolfan Merched y Wawr, Stryd yr Efail,  
 Aberystwyth  
 SY23 1JH

**Ddim yn aelod?  
 Beth am ymaelodi heddiw:  
<http://cymdeithas.cymru/ymaelodi>**

**S** Gwasanaeth  
**SARACENS**  
 Teiars  
 MICHELIN  
 PIRELLI  
 TOYO  
 MARSHAL  
 AVON  
 DUNLOP  
 GOOD YEAR  
 CERRIG ☎01490 420355  
 BALA ☎01678 520906

**CIGYDD BALA**  
 69 Y STRYD FAWR, Y BALA  
 ☎01678 520 422  
 Agored  
 Dydd Llun—Dydd Sadwrn  
  
 Cig oer, mochyn ac eidlon  
 o ffermydd lleol.  
 Bacwn, cywion ffres  
 ac wedi eu coginio,  
 a phob math o gig oer  
 CLWB NADOLIG ar goel hefyd

**GUESTYR  
 PLAS COCH**  
 Stryd Fawr, Y Bala  
**CREGGO CYMIES**  
**BOB AMSER**  
**BUWD DA, CŴBUD DA**  
**A CHŴBUDI DA**  
**GALUSCH HEIBIO**  
 ☎01678 520309 ☎01678 521135

**TOM PARRY  
 A'I GWMNI**  
 SEFYDLIWDYD 1912  
 38 STRYD FAWR, Y BALA  
 ARWERTHWYR TAI A PHRSIWIWYR  
 ARBENIGWYR EIDDO O BOB MATH  
 Sylw Personol a Chyfeillgar  
 bob amser  
 ☎01678 521025 ☎106778 521247

**Gwyn Roberts  
 Construction a'i Gwmni cyf**  
 Dolhendre Llanuwchllyn  
 Bala, Gwynedd, LL23 7TD  
 01678 540348 / 07761 384654 (Mob)  
 PEIRIANNEG SIFIL  
 CREU FFYRDD A TARDU  
 GWAITH ORAENTO  
 A WALIO  
  
 TIRLUNIO  
 HURIO PEIRIANNAU  
 O 2.5 TUNNELL  
 I 20 TUNNELL  


**GUTHRIE JONES & JONES**  
 Cyfreithwyr  
 Yn gwasanaethu'r gymuned  
 Cysylltwch â ni yn  
 ■ 5 Stryd y Plase, Y Bala, LL23 7SW  
 01678 520428  
[bala@guthriej.co.uk](mailto:bala@guthriej.co.uk)  
 ■ Waterloo Chambers, Stryd y Bont,  
 Dolgellau, LL40 1AT  
 01341 422604  
[dolgellau@guthriej.co.uk](mailto:dolgellau@guthriej.co.uk)  
 ■ 29 Ffordd Rhuthun, Dinbych, LL16 3EH  
 01745 814817  
 Neu drwy [www.guthriej.co.uk](http://www.guthriej.co.uk)

## 'LLYFR COF A HIRAETH – NI ALL NEB EI GAU'


**M**ae'r profiad o golli rhywun annwyl yr un fath o un genhedlaeth i'r nesaf. Yr un ydi'r boen, a'r galar a'r hiraeth. Ond mae'r arferion cymdeithasol sydd ynghlwm â chydymdeimlo mewn profedigaeth wedi newid. Yn yr hen ddyddiau'r arfer oedd mynd i ymweld â'r profedigaethus gyda hanner pwys o de neu dun salmon, neu ynteu anfon llythyr neu gerdyn. Erbyn heddiw mae pobol yn aml yn anfon blodau, ffonio neu decstio, neu'n anfon neges trwy gyfrwng y cyfryngau cymdeithasol megis Facebook a Trydar sydd yn ganolbwynt bywyd cymdeithasol cymaint ohonom. Yn aml gwelir rhes o galonnau a chusanau ar y negeseuon hynny, ond dim un gair. Ac eto mae lle i eiriau.



Ar ôl colli ei mam yn greulon o sydyn ddiwedd 2019, a'i thad ychydig flynyddoedd cyn hynny, aeth Elin Angharad Davies ati i sefydlu tudalen Facebook o'r enw Gair o Gysur, gan bostio cerddi o'i gwaith ei hun ac addasiadau, ynghyd â dywediadau cysurlon ar gefndir ffotograffau atmosfferig. Bu'r dudalen yn hit mawr gan ddenu ymhell dros ddwy fil o ddilynwyr, ac mae wedi cynnig cysur i lu a brofodd golled neu amgylchiadau anodd. Ond oherwydd natur fyrhoedlog y cyfrwng, diflanedig ydi'r postiadau arni, yn hytrach na rhywbeth solet y gellir troi'n ôl ato am gysur. Dyna fu'r sbardun i Elin fynd ati, ar wahoddiad Gwasg y Bwthyn, i lunio'r casgliad a welir yn y gyfrol Gair o Gysur.

Dywed Elin yn ei Rhagair mai gefn nos y byddai'n ysgrifennu neu addasu llawer o'r cerddi a geir yn Gair o Gysur, a bod hynny wedi ei helpu i ymdopi â'i galar. Yn ei bywyd bob dydd mae hi'n brysur: yn Bennaeth Cerddoriaeth yn Ysgol y Creuddyn, gwraig fferm yn ardal Ysbyty Ifan a mam i bedwar o blant. Yn ogystal â thrin geiriau mae Elin yn delynores brofiadol ac mae cerddoriaeth yn bwysig i'r teulu cyfan.

Mae Gair o Gysur yn gyfrol gyfoes, gan adlewyrchu natur ein cymdeithas heddiw. Ceir yma gerddi, neu ddyfyniadau o gerddi crefyddol ac emynau, a dyfyniadau o'r Beibl hefyd, ochr yn ochr â chaneuon cyfoes gan feirdd mor amrywiol â Dewi Pws, Meinir Gwilym, Mei Gwynedd a Lleuwen Steffan. Mae'r caneuon o waith mam Elin, Margaret Edwards, yn 'canu yn y co', a cherddi Elin ei hun yn cyffwrdd y galon. Er bod y cynnwys yn ddwys mae'r ffotograffau o waith lestyn Hughes, Lisa Elan Davies ac Aled Hall yn hyfryd ac yn codi'r ysbryd.



Dyma gyfrol werthfawr – wrth ddewis neges addas i'w rhoi ar gerdyn, neu ddarlleniad ar gyfer gwasanaeth coffa neu angladd, neu i'w rhoi'n anrheg i ffrind. Bydd llawer yn cadw eu copi wrth erchwyn y gwely. 'Rhannu'r geiriau' oedd nod Elin pan aeth hi ati i sefydlu ei thudalen Facebook ac wedyn wrth olygu'r gyfrol hon; llwyddodd yn sicr yn ei hamcan – rhwng dau glawr yma crynhoir cysur rhyfeddol geiriau. Cyhoeddwyd y gyfrol er budd yr elusen meddwl.org

*Ar gael yn AWEN MEIRION neu o [gwales.com](http://gwales.com) Clawr caled £9.00  
 Rhagor o fanylion: (Meinir Pierce Jones [meinir@gwasgybwothyn.co.uk](mailto:meinir@gwasgybwothyn.co.uk))*

# Yma ac acw

— o'r Sarnau a thu hwnt

Ellyn Pritchard



**Gwyliau** Erbyn y daw rhifyn arall o Pethe Penllyn i'n dwylo bydd llawer ohonom wedi meddwl am gael gwyliau haf yn rhywle. Gobeithio hynny wir, a gobeithio mai yng Nghymru y bydd pawb yn treulio gwyliau eleni, ac nid dros y ffin na thros y môr. Am ddau reswm o leia, er mwyn hybu economi ein gwlad ac er mwyn diogelwch rhag y Cofid. Ac os yw o ryw gysur i chi sy'n dyheu am fynd dramor, cofiwch be' dd'wedodd T. H. Parry Williams – mai: 'Hud enwau lleoedd a phellter yw gweld y byd!'

**Ateb parod** Dwi wrth fy modd efo atebion parod, y math o atebion sy'n eich stopio chi'n stond a'ch atal rhag dweud dim rhagor. Ac mi atgoffodd yr etholiad ym Mis Mai fi o'r ateb parod cynta glywais i mewn cyfarfod lecsiwn. Y cyfarfod lecsiwn cynta i mi fod ynddo erioed pan safodd Gwynfor Evans (taid Mabon ap Gwynfor) am y tro cynta ym Meirion. Ei araith yn Ysgol Gwyddelwern y noson honno a'm gwnaeth yn Bleidiwr. Yn y cyfarfod dywedodd gymaint oedd yr angen ar i Gymru gael ei senedd ei hun a manylodd ar fanteision hynny. Yna ar ôl ei araith cododd ffarmwr o'r fro, Rhyddfrydwr tanbaid (ddaeth wedyn gyda llaw yn Bleidiwr yr un mor danbaid!) ac meddai rywbeth fel hyn: 'Rydech chi ym Mhlaid Cymru yn gul, yn meddwl am neb na dim ond Cymru. Mae isio bod yn fwy Cristnogol na hynny. Mae'r adnod yn dweud: "Ewch i'r holl fyd a phregethwch yr efengyl i bob creadur." Ac meddai Gwynfor yn ei lais tawel mewn pedwar gair a'i lloriodd yn llwyr; – "Gan ddechrau yn Jerwsalem!"

**Y gair ola** Ond dwi ddim yn addo, – ar yr etholiad! Os yw fy mhengliniau yn stiff, dwi'n diolch nad ydi fy nghof i felly. Y drwg ydi mod i'n cofio pethe falle y dylsw'n i eu hanghofio. Wel wn i ddim chwaith. Dyma i chi enghraifft. Mi enillodd y Blaid Lafur fuddugoliaeth fawr yn yr etholiad a chafodd Cymru y llywodraeth y mae yn ei deisyfu, y mae yn ei haeddu. Ond gafodd hi'r llywodraeth y mae ei hangen arni? Dwi'n gofyn y cwestiwn am mod i'n cofio i'r Dr Dai Lloyd fwyddyn neu ddwy yn ôl bellach ddod â mesur ger bron y Senedd (Cynulliad oedd o bryd hynny) i warchod enwau hanesyddol Cymraeg ar lefydd rhag cael eu troi i'r Saesneg gan fewnfudwyr di feddwl. Fe bleidleisiodd yr holl aelodau Llafur yn ei erbyn a chyda cymorth ein haelod Cynulliad ni, Yr Arglwydd ei hun, oedd yn is Weinidog Diwylliant o bopeth, fe'i trechwyd. Gwneud i chi feddwl am roi'r cwt ier yng ngofal y llwynog yn tydi? Ie, y cwestiwn yw a gafodd y genedl yn yr etholiad diweddera hwn y llywodraeth y mae ei hangen arni? Cwestiwn digon teg dwi'n meddwl. Cwestiwn na ellir ei ateb ar y funud, ond cawn weld!

**Un llinell** Mae pawb rwy'n tybio yn gallu cofio un llinell o farddoniaeth; un llinell wnaeth argraff arnoch chi, a gall ddod o emyn, o delyneg, o englyn, o rywle wir. A be' wnaeth imi feddwl am hyn medde chi? Wel chwilio am bwt o hanes

Dewi Hafesb am reswm arbennig yn ddiweddar. A chofio ei llinell anfarwol yn disgrifio'r tarw, yr ola yn ei englyn i'r creadur hwnnw. Wyddoch chi'r llinell? Dyma hi: **Llew o beth yw tad llo bach.** Ew mi faswn i wedi bod wrth fy mod taswn i wedi creu y llinell yna! Ond yn fy meddwl i mae dwy o rai gwell ganddo yn ei englyn i gariadferch. Dyma'r esgyll, sef y ddwy llinell ola, ac anwybyddwch y gair cynta sy'n ddim ond ebychiad: **Ha! Fe alwyd nefolion/ I hollti aur yn walt i hon.** Meddyliwch, angen angylion i greu ac angen aur, dim llai, i lunio'r gwallt. Wyddoch chi be, taswn i'n ferch ifanc felynwaltt mi faswn i wedi bod wrth fy modd yn cael llinellau fel yna gan gariad. Mi fase wedi bod yn ddigon i mi ei briodi o synnwn i ddim! Tybed ai i'w wraig ei hun y lluniodd o'r englyn? Merch Llawrcilan oedd hi, ac roedd hi saith mlynedd yn hŷn na fo.

**Yr oes fodern** Ew da 'di'r gajets modern ma ynté? Ia? Tybed? Cymrwch y ffôn fel enghraifft. Rhywbeth sy efo ni ers blynyddoedd. Roedd o'n arfer bod yn declyn syml iawn, deialu 0 neu 100, cael help yn y gyfnewidfa i gael y rhif, yna ateb o'r pen arall a ffwrdd â chi. Ond nid heddiw. O na! Dech chi wedi cael trafferth wrth ffônio i gael gwybodaeth am rywbeth, yswiriant y tŷ, trafferth efo'r cyfrifiadur, bwcio sesiwn efo'r deintydd? Wel mi rydw i. Mae hi'n oes yr aml ddewis! Oes rhaid i ben arall pob ffôn fod mor gymhleth dwedwch, neu ai fi sy'n fyr fy amynedd ac yn hanner byddar beth bynnag?

Rhywbeth tebyg i hyn yw'ch profiad chi falle, dyma fy mhrofiad i yn bendant.

Dychmygwch bod gynnoch chi fuwch ac yn ffônio rhyw awdurdod ynglŷn â hi. Mae'r ffôn pen arall yn canu ac mi glywch chi i hyn: 'Diolch am ffônio'r llinell help i bobol sy'n berchen ar wartheg. Dewiswch o'r opsiynau canlynol:

- Os 'dech chi'n ffônio ynglŷn â mynd â buwch at y tarw **pwyswch 1.**
- Os 'dech chi'n ffônio ynglŷn â charthu'r beudy **pwyswch 2.**
- Os 'dech chio'n ffônio ynglŷn â dihornio'r fuwch **pwyswch 3.**
- Os 'dech chi'n ffônio am fod y fuwch yn ddigalon **pwyswch 4.**
- Am unrhyw ymholiad arall **pwyswch 5.'**

Eich problem yw carthu'r cut felly 'dech chi'n pwysu 2 ac yn edrych ymlaen at gael ateb i'ch problem. Dim ffiars! Dyma gewch chi:

'Diolch am ymateb. Dewiswch o'r opsiynau canlynol:

- Os 'dech chi'n cael trafferth agor drws y beudy **pwyswch 1.**
- Os ydi'r tail yn y beudy wedi mynd yn rhy galed i'w symud **pwyswch 2.**
- Os ydi'r beudy yn wynebu gwynt y dwyrain **pwyswch 3.**
- Os yw'r fuwch yn gwrthod i chi fynd i mewn i'r beudy **pwyswch 4.**
- Am unrhyw ymholiad arall **pwyswch 5.'**

Ac felly ymlaen ac ymlaen nes y byddwch chi ar fin lluchio'r ffôn drwy'r ffenest, neu mae hi'n amser cinio neu mae'r fuwch wedi marw, ac mi rydech chi'n rhoi'r ffôn i lawr, ac yn cael eich temtio i roi cic i'r gath, sy' o leia'n well na rhoi clusten i'r person cynta welwch chi, alle fod yn ŵr neu wraig i chi.

Ie gwych yw'r bywyd modern efo'r holl gyfleusterau sy ar gael inni ynté? Sut oedd pobol erystalwm yn dod i ben â phopeth d'wedwch?

*Fe gofiwch, efallai, i mi sôn am yr hen Ffatri Ffrydan ar lan yr afon Tryweryn yn ein rhifyn diwethaf. Wel, daeth ymateb gan Mrs A.J. Davies, Gwynllys, Frongoch a oedd yn cofio'r ffatri yn ei hanterth. Diolch iddi am gysylltu.*



## Cofio Ffatri Wlân Ffrydan

Daeth llun o'r hen Ffatri Wlân Ffrydan y Bala yn rhifyn Mehefin o Pethe Penllyn â llu o atgofion imi o'r cyfnod pan oeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Sir y Merched yn y Bala yn y tri degau.

Arferem deithio i'r ysgol ar y trê'n o Orsaf Frongoch i'r Bala. Siwrnai fer ond diddorol. Prynu tocyn tymor, hynny yn caniatáu imi gael teithio ar y trê'n ar fore Sadwrn hefyd i wersi piano. Un peth da am y trê'n oedd, roedd bob amser yn brydlon.

Fel Llwyd o'r Bryn – roeddem yn nabod y dail ar y siwrnai yma. Roedd y rheilffordd yn mynd heibio Rhyd y Defaid, Llechwedd Hen, Hendre Mawr, Y Gelli a Bach Glas cyn croesi Pont y Lein am ffatri wlân y Ffrydan.

Oedd, roedd y ffatri yn ei hanterth yn 1937, byddwn yn sylwi ar gynnyrch y ffatri wedi cael ei olchi a'i drin a'i daenu ar y cloddiau, y ffensys ac ambell lein ddillad i sychu yn yr haul a'r gwynt o amgylch y ffatri – y gwlanenni a'r edafedd. Hyn cyn dyddiau'r Bwrdd Marchnata Gwllân sydd yn rheoli erbyn hyn.

Arferai teuluoedd fynd ag ambell i gnuf o wlân i'r ffatri i'w wneud yn edafedd at weu hosanau gartref. Gwllân y ddafad ddu yn cynhyrchu edafedd cochddu tra byddai'r gwllân gwyn yn creu gwlanen fain hyfryd. Roedd bri bryd hynny a rhinwedd yn y wlanen goch. Oedd, roedd siop Glan Tryweryn yn y Bala yn gwerthu cynnyrch Ffatri Ffrydan yn rhesymol iawn.

Diddorol fyddai hanes y 'Felin Newydd' oedd heb fod nepell o'r ffatri wlân. Yma byddai'r melinydd yn malu a chrasu ceirch at wneud blawd ceirch. Roedd pob cartref yn pobi bara ceirch ... enllyn angenrheidiol yr oes honno.



# Hedfan

John Greenhalgh, Cryniarth, yn cadw'n brysur yn ystod y cyfnod clo!

**D**arllen, garddio, hamddena yw'r hyn sy'n cael ei gyflawni yn arferol gan bobl ar ôl ymddeol ond nid dyma hanes John Greenhalgh, Cryniarth.

Dechreuodd John ymddiddori yn y maes hedfan pan yn hogyn ifanc iawn wrth iddo ffluo modelau bychain. Yna, yn ddiweddarach, arweiniodd hyn at hongian-gleidio cyn iddo fod yn berchen ar microlite ystwytho am gyfnod o 23 mlynedd.

Ers diwrnod San Steffan 2018 mae John wedi bod yn brysur yn adeiladu ei awyren ei hun, ac mae hyn wedi ei gadw'n brysur yn ystod y cyfnodau clo ac yn sbardun iddo ganolbwyntio ar y dasg o adeiladu awyren Model RV-14.

Penderfynodd ar y model arbennig yma gan mai hwn oedd y fersiwn dwy sedd diweddera gan gwmni VAN sydd yn gwerthu offer adeiladu awyrennau ac yn gwella a datblygu eu citiau'n barhaus.

Agweddau'r model yma a ddennodd John yn benodol oedd y ffaith ei fod yn beiriant teithiol a gariai 200 litr o danwydd a hyd at 100lb o fagiau (mwy na digon i John a'i briod Gwerfyl). Byddai modd teithio i Dde Ffrainc mewn 4 awr a hanner. Mae'r awyren hefyd yn un acrobatig fydd yn gyfle i John ehangu ei sgiliau hedfan i'r dyfodol.

Roedd y gwaith adeiladu yn eitha rhywyd i John o ystyried ei gefndr yn y maes peirianneg. Yn ffodus roedd y darnau i gyd yn disgyn i'w lle yn unol â'r canllawiau. Bu cryn sylu a dilyn cyfarwyddiadau a thicio i ffwrdd pob tudalen wrth gwblhau'r gwaith. Credwch neu beidio ond doedd dim weldio



yn angenrheidiol i adeiladu'r awyren arbennig yma.

Y gyfrinach oedd cynllunio'n ofalus i sicrhau bod y darnau angenrheidiol ar gyfer gwahanol agweddau o'r gwaith yn cyrraedd mewn pryd i osgoi unrhyw oedi di-angen. Elfen allweddol arall i'r llwyddiant oedd amynedd a chefnogaeth Gwerfyl yn enwedig gyda'r gwaith rhybedu.

Mae adeiladu'r awyren wedi rhagori ar ddisgwyliadau John ac mae'n cyfaddef ei fod wedi mwynhau pob munud o'r profiad ac yn edrych ymlaen yn fwy na dim at arbrofi ffluo.

Drwy gydol y broses bu John yn derbyn cymorth oddi wrth ei beilot-prawf, Peter Whitehead, sydd wedi cynnig cyngor amhrisiadwy iddo.

Yn dilyn yr holl waith caled yn naturiol mae John (a Gwerfyl) yn edrych ymlaen i gael ffluo'r awyren i wahanol lefydd ac mae'n bur debyg os gwelwch awyren las yn hofran uwchben bydd siawns go lew mai John a Gwerfyl sydd ynddi!

Lle i gyfarfod



**Canolfan Henblas,  
Stryd Fawr,  
Y Bala**

Swyddfeydd ar gael  
i'w llogi, hir-dymor  
neu dymor-byr,  
desg boeth  
hefyd ar gael.

**CANOLOG, CYFLEUS  
A RHESYMBOL.**



**Cysylltwch**

am fwy o wybodaeth:  
**01678 521 796**

neu

canolfanhenblas@gmail.com

**T J ROBERTS**

**A'I FAB**

Cigydd Teulu  
Sefydlwyd 1873

[www.welshqualitymeat.co.uk](http://www.welshqualitymeat.co.uk)

Tŷ Tryweryn,

8 Heol yr Orsaf, Y Bala

Gwynedd LL23 7NG

Ffôn: (01678) 520471

[info@welshqualitymeat.co.uk](mailto:info@welshqualitymeat.co.uk)

*cig gan gynhyrchwyr lleol ô*

**T. PRITCHARD**

**MODURDY'R HENBLAS**

**01678 520237**

Atgyweirio ceir  
Gwaith weldio

Amcangyfrif o'r gost  
**AM DDIM**

Defnyddir offer arbennig "Bosch"  
ar gyfer tiwnio'r injan

Darnau sbar i bob math o geir

**CLASS 4 & 7 MOT**

**I. B. Williams  
a'i Fab Cyf.**

Gwaith Cerrig  
Canolbarth Cymru,  
Llanbryn-mair, Powys  
Sefydlwyd 1918

☎01650 521250

**COFBAU NEWYDD  
ADNEWYDDU**

**COFIANT YCHWANEGOL**

Dewch i ymweld a'n hystafell  
arddangos neu gysylltwch  
am lawlyfr

**BRAMM Registered**

Os ydych chi neu aelod o'r teulu yn chwilio  
am gartref i fyw'n annibynnol wrth  
fynd yn hŷn, efallai mai  
**Awel y Coleg, Y Bala**  
yw'r lle i chi.

- Mae Awel y Coleg yn cynnig cartref annibynnol i chi sy'n fodern, cyfforddus a diogel.
- Mae 30 o fflatiau hunangynhaliol ar y safle, gyda chefnogaeth ar gael 24 awr y dydd, os bydd angen.
- Gyda'ch drws ffrynt eich hun, eich fflat yw eich cartref lle gallwch barhau i goginio, derbyn ymwelwyr a mwynhau byw'n annibynnol.

Diddordeb? Ewch i: [grwpcynefin.org/chwilio-am-gartref](http://grwpcynefin.org/chwilio-am-gartref)  
Codwch y ffôn am sgwrs: 0300 111 2122  
Anfonwch air: [post@grwpcynefin.org](mailto:post@grwpcynefin.org)

@Grwp\_Cynefin  
@grwpcynefin

**Grŵp Cynefin**  
May no that • More than housing

**PETHE PENLLYN  
TRWY'R POST**

Beth am danystrifio i  
**PETHE PENLLYN**  
a mwynhau'r cyfleustra o  
dderbyn eich copi ar y mat  
tu ôl i'r drws bob mis.

Llanwch y ffurflen ar  
dudalen 7 ac ymunwch  
â'r 60+ o bobl sydd eisoes  
yn rhan o'r cynllun.

**Wnewch chi ddim difaru!**

# Cerflun Bryn Pader

gan Ian Lloyd Hughes

**Y**n ddiweddar bûm i a chyfaill yn cerdded ar hyd Taith Tegid sydd yn cychwyn wrth ymyl Pontmwnwgl y Llyn ac yn gorffen yng Nghynwyd.

Fe gychwynasom ni y daith yn Llanfor, gerllaw yr Eglwys hynafol sydd bellach wedi cau ei drws i unrhyw wasanaeth a seremoni. Roedd y llwybr yn codi yn raddol uwchlaw fferm Penisa'r Llan ac ymhen amser cyrhaeddwyd Bryn Pader. Cyn dilyn y llwybr sydd yn mynd o flaen tŷ Bryn Pader dyma ni yn sylwi ar gerflun yn y cae o flaen y ffermdy. O edrych yn fanylach cerflun o berson sydd yma ar ei liniau, yn debyg i berson yn dweud ei bader. Mae ei wneuthuriad allan o ryw fath o blastig caled iawn ac mae wedi ei osod yn gadarn iawn yn y ddaear. Mae'n amlwg ei fod yn ddisymud oherwydd roedd ôl gwartheg wedi bod yn rhwbio yn ei erbyn.

**Tybed pwy oedd y gwneuthurwr a phwy a pham y gosodwyd y cerflun yn y lleoliad yma? Oes cysylltiad rhwng enw'r ffermdy a ffurf y cerflun? Byddai cael ateb i'r cwestiynau yma yn ddifyr.**



## Oeddech chi'n gwybod?

*Digwyddiadau â chyswllt uniongyrchol â Ty'n y Berth, Cynwyd.*

☞ I groesawu Rheithor Cynwyd, sef y Parchedig Watkin Williams a'i wraig newydd, Miss Salisbury, yn ôl o'u mis mêl yn crwydro'r cyfandir am dair wythnos, ysgrifennodd Mr Lloyd o Ty'n y Berth yr englyn hwn yn Awst 1865 ...

*I William a'i annwylyd – boed llwyddiant;  
Byd llawen ac iechyd,  
A hir oes, heb un croesfyd,  
A gaffont tra byddant yn y byd.*

☞ Ym mis Mawrth 1868 priodwyd Miss Humphreys o Ty'n y Berth efo Frances Leedham a bu clychau'r eglwys yn canu yn achlysurol drwy'r dydd a thaniwyd cannon nes bod y dyffryn yn diasbedain. Y diwrnod wedyn bu te-parti i tua 60 o blant yr ysgol oedd yn cynnwys bara brith ymhlith y bwydiach a gafodd ei baratoi ar eu cyfer gan ddwy chwaer y briodferch.

☞ Roedd Ty'n y Berth yn bodoli yn 1293 ac mae'n debyg fod y safle gwreiddiol ar fuarth y fferm ond oherwydd niwl trwchus ar lawr y Dyffryn penderfynwyd codi cartref newydd ar y safle presennol. Digwyddodd hyn mae'n debyg yn y 16eg neu'r 17eg ganrif. Gwyddus i John Lloyd symud o'i gartref yn Hafod yr Afr i fyw i gartref ei wraig yn Nhy'n y Berth, a hynny yn gynnar yn y 19fed ganrif.

☞ Yn 1838, G.H.Vaughn oedd y perchennog gyda'r tenant Edward Jones yn byw ynddo. Roedd yn 'land surveyor' a chredir i'r tŷ presennol gael ei ailadeiladu ganddo ef cyn i Gerallt Tudor, y perchennog presennol, wneud newidiadau sylweddol iddo yn y blynyddoedd wedi 1986.

☞ Bu y teuluoedd 'Humphreys', 'Lloyd' ac yn ddiweddarach 'Griffiths' yn byw am gyfnodau yn Nhy'n y Berth hefyd ac mae hanesion difyr am y teuluoedd hyn.

☞ **Stori Wir!** Mr Bob Griffiths, Ty'n y Berth, yn mynd i'r Dryll i ddefnyddio'r ffôn gan fod angen darn i un o'i beiriannau. Cododd y ffôn gan geisio egluro pa fath o ddarn oedd angen. Roedd y darn ganddo yn ei law ac fe ddywedodd fel hyn:-

“ I want a cogens just like this one!!!”

Ni fyddai'n broblem erbyn heddiw efo *Face Time*, *Skype* a *Wats.Ap* ar gael!



☞ [Y *Negesydd*, *Tachwedd* 1895] Ym Mhwyllgor diwethaf Heddeidwaid Meirion, darllenwyd llythyr oddiwrth Cyngor Plwyf Llangar yn cwyno am arferion drwg pobl ieuangc Cynwyd a'r gymdogaeth, a gofynent am i Heddeidwad ddyfod i fyw i'r lle. Dywed y llythyr fod yno bedair o dafarndai yn y pentref. Gallem feddwl mai nid ychwaneg o heddeidwaid sydd eisiau, ond yn hytrach, lleihau nifer y tafarnau yno.”

## Pwy sy'n gwybod ?

Oes rhywun yn gwybod ble mae 'Croes Stryd' oedd, yn ôl adroddiad papur newydd yn 1859, tua hanner milltir o bentref Cynwyd ? Daeth Becca a'i dilynwyr yno i'r tollborth gan gario'r 'gate' ymaith a'i daflu dros bont Cynwyd i'r afon Ddyfrdwy. Tybed ble roedd y tollborth hwn ?



# GARDDIO GWYRDD

gyda *Rowenna*



## Mehefin 2021

**U**nwaith wnaeth y nosweithiau rhewllyd ddod i ben wnaeth yr ardd ddechrau ffynnu. Mae wedi bod yn ddi-ddorol iawn gweld pa blanhigion a lwyddodd i wrthsefyll yr oerfel a pha rai oedd wedi aros yn hirach cyn ailgydio. Erbyn hyn, mae bryniau ac ymylon y ffyrdd a'r gerddi i gyd yn llawn bywyd a dail a blodau. Mae'r ddraenen wen, y griafolen a'r coed afalau yn ein gerddi ac yn y wlad yn llawn blodau. Yn yr ardd lysiau, mae'r garlleg a'r cennin yn tyfu'n eithriadol o dda, wrth gwrs, a'r flwyddyn wnes i benderfynu peidio â phlannu nionod yw'r flwyddyn y mae'r aliwm yn gwneud yn dda.

Mae'r twnnel poli yn bictiwr, pob dim yn edrych yn iach erbyn hyn er iddo edrych yn debycach i wyneb y blaned Mawrth ychydig wythnosau'n ôl ar ôl gaeaf o gadw'r ieir ynddo oherwydd cyfyngiadau'r ffliw adar. Maent yn amlwg wedi bwyta llawer o wyau'r gwlithod yn ystod eu harosiad yno. Un wers gefais y flwyddyn yma oedd i beidio â bod yn rhy awyddus i blannu'n gynnar. Wrth blannu'n olynol, mae hi wedi bod yn amlwg iawn bod y planhigion a blannais i ym mis Mawrth yn wan ond mae'r rhai a blannes i tuag at ddiwedd mis Ebrill ac i mewn i fis Mai yn llawer cryfach. Mae'n anodd gwrthsefyll, yntydi; pan fo'r awydd yn gryf i yrru ymlaen er gwaethaf ein dealltwriaeth a'n profiad blaenorol. Da ydi brwdfrydedd yntê. Mae'n ein cario ni trwy'r adegau anodd bob gafaal.

Y newyddion cyffrous yn y prif dwnnel yw bod llyffant wedi symud i mewn i'r pwll bach,

ac yn eistedd yno gyda'i ben yn specian trwy'r planhigion yn edrych arna i'n dyfrio a chwynnu, yn gwmni i'r penbyliaid. Y newyddion o'r twnnel llai yw fy mod i wedi colli'r ffa i gyd ond 'chafodd y pys mo'u bwyta ac maent wedi blodeuo'n dda. Dwi 'di plannu ychydig o blanhigion tomatos yn y twnnel llai ac unrhyw blanhigion sbâr yr oeddwn i'n methu â chael lle iddynt yn y twnnel arall. Dwi hefyd yn ei ddefnyddio i dyfu hadau seleri, brocoli, swej, cêl a ffenigl.

Mae'r sbigoglys 'gaeaf anferthol' yn llwyddiannus. Mi ges i blanhigion o'r math yma'r flwyddyn ddiwethaf a phrynes i hadau i weld a fyddai'r amrywiaeth yma yn tyfu'n dda ac yn wir mae'r cnwd wedi bod yn fendigedig. Mi fydda i'n plannu mwy ohono ac yn rhoi cynnig ar ei dyfu er mwyn casglu'r hadau. Dydi o ddim yn 'F1', sef planhigion croesryw neu hybrid, felly fe ddylai'r hadau fod yn iawn at flwyddyn nesaf. Nodyn bach, nid yw'n werth cadw hadau o'r fath yma o blanhigion am na fydd yr had yr un fath â'r rhiant blanhigion. Dwi'n dueddol o beidio cael planhigion 'F1' am y rheswm yma. Yn ychwanegol i'r spigoglys, mae endief, berwr tir, nionod saplad, dail salad, cel, seleri, ciwcymbyrs, pys, ffa, pwmpenni, moron a phersli yn tyfu'n braf yn ogystal i'r eginblanhigion brocoli sydd mewn gwlely ar wahân yn aros i dyfu'n ddigon cryf i fynd allan i'r gwllau allanol. Yndi, mae'n fendigedig gweld y gwllau'n llawn ac yn iach.

Yn y gwllau allanol, mae'r garlleg i'w weld yn iach ac mae'r ail heuad o ffa llydan wedi blodeuo. Yn anffodus, wnaeth yr heuad cyntaf dyfu'n wan iawn ac maen nhw wedi gwywo. Mae ychydig o bannas wedi tyfu ond yn anffodus, wnaeth y gwres poeth ladd rhai o'r eginblanhigion. Anghofies i dynnu'r gorchudd plastig oddi arnynt ac mi losgodd yr haul rai ohonynt. Pan mae gen i funud yn sbâr, dwi'n stryffaglu i dynnu'r blodau menyn ymlusgol o ochr allanol y twnnel bob yn 'chydig er mwyn cael lle i'r brocoli yn y gwlely yna. Tristwch y peth yw, pan mae'r planhigion yn

ffynnu mae'r chwyn yn ffynnu hefyd.

Dw i'm yn siŵr a ydw i'n gwneud peth doeth, ond eleni dwi'n rhoi'r chwyn yn y compost ond yn gofalu i orchuddio pob haen gyda haen o dorion gwair, haen o gymffri a haen o dail merlod yn y gobaith y bydd tymheredd y domen yn ddigon uchel i ladd unrhyw awydd sydd gan y chwyn i adfywio. Gawn ni weld mewn flwyddyn neu ddwy a oedd y syniad yn un da..

Fel sonies i, roedd y coed 'falau yn orlawn o flodau a bydd rhaid i mi gadw llygad ar faint o ffrwythau fydd arnynt am ddau reswm: y cyntaf yw i warchod y canghennau rhag sigo o dan y pwysau fel a ddigwyddodd i'r goeden eirin ddwy flynedd yn ôl; a'r ail reswm yw, i sicrhau y ca' i afalau o faint da. Y syniad yw tynnu'r rhai lleiaf o pob clwstwr fel bod dim ond un neu ddau yn aros. Yn y modd yma, bydd y rhai sydd ar ôl yn cael digon o le a digon o faeth i dyfu'n gryf. Dwi'n edrych ymlaen i weld a gawn ni eirin o gwbl eleni. Roedd y goeden yn llawn o flodau pan gawson ni'r nosweithiau rhewllyd ac mae'n bosib y bydd y rhew wedi effeithio arnynt neu na fyddant wedi eu peillio gan fod cyn lleied o beillwyr o gwmpas. Ond dwi'n siŵr y bydd digon o ffrwythau meddal eraill ar gael i lenwi'n rhewgelloedd at y gaeaf.

Yn olaf, mae'n adeg dda i fynd trwy'ch blwch o becynnau hadau i weld a oes 'na rai sydd yn dal yn ddigon ffres i'w hau er mwyn cael eilyddion ar gyfer yr eginblanhigion sydd yn methu. Os ydych am fynd ar wylie, cofiwch chwynnu a rhoi digon o ddŵr i'ch planhigion a gorchudd o dorion gwair neu ddail ar y pridd i warchod rhag dadhydradiad ac os yn bosib gorchudd o rwyd mân i warchod y crydau rhag adar neu gathod. Cewch lonydd wedyn i fwynhau eich gwylie heb boeni'n ormodol am yr ardd.

## PETHE PENLLYN TRWY'R POST

**Hoffwn danysgrifio i  
PETHE PENLLYN. Amgaeaf sicc,  
yn daladwy i "PETHE PENLLYN"**

\*\*\*\*\*

**£15.00 y flwyddyn  
am 10 rhifyn.**

**Danfonir eich copi yn brydlon  
trwy'r post [2il ddsbarth].**

Danfonwch y papur i'r cyfeiriad isod

ENW: .....

CYFEIRIAD: .....

Dychwelwch y ffurflen, ynghyd â'ch sicc, i PETHE PENLLYN,  
Tanyfron, 105 Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE



## Siop 'Sgidiau J Edwards, Cynwyd

Ai J Edwards yw'r gŵr bach tu allan i'r siop, tybed? Tri swllt a phedair ceiniog a gododd am sodlu a gwadnu pâr o sgidiau i rywun yn 1913. Mae'n swnio'n rhad ond mewn gwirionedd mae'n cyfateb i £12.91 heddiw! Dyma un o'r lluo o siopau yng Nghynwyd y sonnir amdanynt yn y gerdd 'Molawd Cynwyd' ar dudalen 15. Un o fulod Moses Williams a dywysir gan y bachgen heibio i'r siop, yn cario ... glo efallai ... ?

# Y Gornel Greadigol *Uuniwyd gan Gwen Edwards*

*Pleser mawr i mi ydi cael cynnwys gwaith disgyblion Ysgol O.M.Edwards yn y golofn y tro yma. Mi garwn i ddiolch yn fawr i Mrs Dilys Ellis-Jones am anfon y gwaith ataf, i'r athrawon fu'n sbarduno'r plant, ac wrth gwrs i'r disgyblion eu hunain, rhai ohonyn nhw'n ifanc iawn fel y gwelwch.*



Stori'n dilyn patrwm  
'Y Tri Mochyn Bach'



## Y Ddwy Gath Fach

Un waith roedd 'na ddwy gath fach eisiau gwneud tŷ. Roedd y gath gyntaf wedi adeiladu tŷ allan o bren, a'r ail gath wedi adeiladu tŷ allan o sment. Ond un dydd daeth y ci cas i'w cyfarfod.

"Ga i ddod i mewn?"

"Na chei siwr."

Felly mi chwythodd, a mi chwythodd nes fod y tŷ'n racs jibidêrs. Rhedodd y gath fach gyntaf i dŷ yr ail gath fach.

"Ga i ddod i mewn?" meddai'r ci cas.

"Na chei siwr."

"Felly mi wna i chwythu a chwythu nes mae dy dŷ di'n racs jibiders."

Ond fedrodd y ci cas ddim chwythu'r tŷ i lawr. Felly mi benderfynodd fynd lawr y simne. Ond rhoddodd y cathod gawl i ferwi, a disgynnodd y ci i mewn i'r crochan.

A dyna ddiwedd y ci am byth.

*Beca Lliw Jones, Blwyddyn 1*



## Cerdd ddosbarth blwyddyn 5 a 6 ysgol O.M.Edwards

### Fy Mro

Af am dro.  
Dilynaf afonydd.  
Crwydraf froydd fy mebyd.  
Clywaf ddefaid yn brefu a  
chyfarthiad croesawgar Gel,  
A sŵn lleisiau plant yn yr awyr iach.

Ar fy meic  
Clywaf yr adar yn tiwnio wrth ddewis eu nyth,  
A thonnau Llyn Tegid yn gwahodd nofwyr;  
Gwelaf gychod hwylio a rhai yn canwio,  
Dringaf i ben castell Carndochan – brenhines fy mro,  
Sy'n gwarchod mynyddoedd a chymoedd  
Pennantlliw.

Mae afon Lliw yn disgleirio.  
Edrychaf, a gwelaf gaeau Cwm Cynllwyd.  
Eisteddaf ar lan y llyn di-gynnwrf, a'r Aran yn ei warchod.  
Rhyfeddaf at hyfrydwch fy mro.  
Arenig fawr yn osgeiddig yn y machlud lliwgar  
ac afon Llafar yn llifo'n dawel yn ei chysgod.  
Rhaeadrau ewynnog yn dilyn taith y defaid-  
dros lwybrau lawr o'r mynydd.  
Stadros a'i lechweddi hardd  
A rhuo'r tractor yn y c'naea' gwair.

Arhosaf ennyd. Tawelwch -  
Nes clywaf gerbydau'r ymwelwyr yn dychwelyd.

Mae natur ar ei orau yn fy mro  
A choedwigoedd tal yn gwarchod y bywyd gwyllt.  
Mae'r tawelwch yn fy swyno.  
Daw dawns yr Hydref a'i heulwen braf  
A theimlaf ddail crin dan fy nhraed.  
'Ha bach Mihangel, – ac aroglaf yr awel fel gwynt  
y môr yn fy ffoenau.

Dyma fy mro ac fe'i caraf.  
Dyma fy mro a chofleidiaf hi.  
Dyma fy mro, fy iaith, fy ngwlad.

*Disgyblion blwyddyn 5 a 6*

## Hanes O.M.Edwards

Roedd O.M.Edwards yn byw yng Nghoed y Pry. Roedd yn hoffi mynd am dro i'r mynydd efo ei dad. Roedd O.M.Edwards yn siarad Cymraeg adref ac yn y capel, ond pan oedd Owen yn 6 newidiodd popeth. Mi ddudodd ei fam a'i dad,



"Owen, rwyt ti'n rhy hen i gael dy gadw adref rwan, mae'n rhaid i ti fynd i'r ysgol."

Felly, y diwrnod canlynol gyda ei fag yn ei law, a gan mai dyma'r tro cyntaf, roedd rhaid iddo fynd i'r ysgol gyda ei fam. Pan gyrhaeddodd nhw mi ddudodd yr athrawes,

"Bachgen newydd ie, ond peidiwch a phoeni, mi wnawn ni edrych ar ei ôl", yn filain.

Roedd y plant yn gegrwith. Doedden nhw erioed wedi ei chlywed yn siarad Cymraeg o'r blaen. Ar ôl i'r wers ddechrau, dechreuodd yr athrawes siarad iaith nad oedd Owen wedi ei chlywed o'r blaen. Ceisiodd Owen siarad Cymraeg, ond mi ddudodd yr athrawes,

"If I hear you speak Welsh again you will get the Welsh Not, and if you still have it on the end of the day you will get 6 strikes by the cane."

Ar ôl hynny, fe gafodd Owen y Welsh Not gannoedd o weithiau wedyn.

Pan oedd yn ddyn cafodd swydd bwysig ac mi roddodd y Welsh Not yn y bin. Gwnaeth yn siwr fod plant yn cael siarad eu iaith eu hunain yn yr ysgol.

*Bedwyr Nereus Evans, Blwyddyn 2*



### Ein Taith Gerdded

Ar ddydd Gwener, y 23ain. o Ebrill, aethom ar daith gerdded gyda Mrs. Iola Edwards o gwmpas Llanuwchllyn i ddysgu ychydig am hanes yr ardal ac am Syr O.M.Edwards.

Yn gyntaf, cawsom yr hanes am O.M.Edwards tra'n blentyn yn yr ysgol. Dywedodd Mrs. Edwards ei fod yn casáu mynd i'r ysgol am nad oedd yn hoff o'i athrawes. Roedd hi'n gas iawn ac yn ei gosbi am siarad Cymraeg. Yn aml cafodd O.M.Edwards ei gosbi am siarad ei famiaith, ac felly yn cael ei orfodi i wisgo'r Welsh Not.

Ar ôl hynny, aethom i'r hen fynwent i weld bedd O.M.Edwards, ac yna ymlaen i weld ei gartref sef Neuadd Wen. Cafodd y tŷ ei enwi ar ôl adeilad pwysig yn Llundain, sef Whitehall. Roedd O.M.Edwards eisiau profi bod y Cymry yn bwysig hefyd.

Yna aethom i gyfeiriad Garth Bach. Ar y ffordd, gwelsom hen weiren bigog ar Bont y Pandy, weiren sydd



yn dal yno ers yr Ail Ryfel Byd, a'r byncar bach oedd yn cael ei ddefnyddio i wyllo awyrennau'r gelyn.

Yn dilyn ychydig o hanesion yr Ail Ryfel Byd, cawsom ychydig o wybodaeth am sut ddaeth Llanuwchllyn yn un o bentrefi cyntaf Gogledd Cymru i gael trydan. Gwelsom y pwerdy bach yn y Singrig cyn cerdded ymhellach i weld Llyn Cob. Ers talwm roedd dŵr o'r llyn yn llifo i'r hen felin i greu bara, a hefyd yn llifo i dyrbîn i greu trydan. Roedd Llyn Cob hefyd yn cael ei ddefnyddio i gynnal gwersi nofio i blant y pentref.

Rai munudau yn ddiweddarach, gwelsom hen gartrefi O.M.Edwards, sef Cae Rhys a Coed y Pry. Dilynion ni'r llwybr a dod at goed Siabrau Duon. Yma, gwelsom hen fwthyn O.M.Edwards lle bu iddo dreulio llawer o'i amser yn ysgrifennu.

Yn fuan wedyn, roedden ni ar ben Garth Mawr. O'r brig roedden ni'n gallu gweld yr holl olygfeydd, sef Arenig, Carndochan, Aran Benllyn, Moel Ddu, Cader Idris, Llyn Tegid, Moel y Caws, Moel Llyfnant a Craig y Llestri.

*Lewis Gwyn Roberts, Blwyddyn 6*

### 'Fy Mro' oedd testun cerddi'r Gadair eleni, ac roedd y beirniad, Alan Evans, wedi cael ei blesio'n fawr. Felly, dyma nhw i chithe eu mwynhau, gan ddechrau gyda'r gerdd fuddugol gan Rhys Tomos Roberts

#### Fy Mro

Af am dro.  
Dilynaf yr afonydd tawel  
a'r tawelwch sy'n fy swyno.  
Afon Lliw yn lliwgar fel enfys.

Mae natur ar ei orau yn fy mro.  
Daw dawns yr Hydref a'r haul  
i ddisgleirio ar Lyn Tegid.

Yr Aran a'i chreigiau garw,  
Carndochan fel brenhines Pennantliw.  
Clywaf yr adar yn canu'n swynol  
fel Côr Godre'r Aran.  
Y bywyd gwyllt sy'n hyfryd,  
o'r coedwigoedd i'r caeau glas.  
Y gwartheg yn cnoi cil,  
a'r llo yn breffu.  
Y tractor yn rhuo yn cynaeafu'r gwair,  
a'r ffarmwr yn chwys domen dail.



Yn y nos, clywaf y ceffylau yn  
stampio yng Nghaer Gai;  
y Rhufeiniaid yn martsio  
drwy fy mreuddwydion.

Dyma fy mro, ac fe'i caraf hi.

*Rhys Tomos Roberts,  
Weirglodd Wen*



#### Fy Mro

Yr Arenig fawr sy'n brydferth.  
Yr haul yn llosgi yr eira gwyn sydd arni.  
Brenhines anferth a'i chreigiau creulon  
laddodd ddynion ifanc o'r rhyfel.

Stadros a'i lechweddi brwynog hardd.  
Stadros sy'n cael ei losgi  
a'r mŵg du fel storm sy'n ymledu  
ar draws ein pentref bychan.

Afon Llafar yn llifo dros y cerrig garw.  
Afon sy'n bwyta caeau anferth.  
Clywed yr adar yn tiwnio  
pan oedden nhw'n trio chwilio  
am eu bwyd i'r cywion llwglyd.

Trigolion cyfeillgar y pentref  
yn siarad a sgwrsio.  
Beiciau yn gwibio heibio i lawr y pentref  
a'r tractor yn rhuo.

Dyma fy mro, fy mywyd a'm cartref i.

*Cai John Roberts,  
Trem Arenig, Parc*

### Roedd Elsa Mair Blain a Cai John Roberts yn gydradd ail agos iawn.

#### Fy Mro

Af am dro  
ar hyd llwybrau fy mro,  
a dilyn ôl troed fy nhaid,  
gan ei ddychmygu yma yn crwydro  
fel llwynog yn chwilio am anifail i'w fwyta.

Yr hen lein drên  
sy'n ymestyn tua'r pentref.  
Gwelaf y garej lle bu Taid  
yn gweithio'n galed,  
ac yn rhoi'r byd yn ei le gyda hwn a'r llall.  
Mae dy chwerthin braf yma o hyd.

Cerddaf drwy ganol y pentref bychan  
drwy edrych ar yr Aran  
sy'n ymestyn fel cawr  
mawr, blin  
gydag ewyn gwyn fel eisin o eira ar ei chop.



Ein hetfeddiaeth yw ein hiaith ni heddiw,  
A dyma fi heddiw yng nghanol fy mhentref delfrydol:  
Yr Eagles, Garej Llan, cae chwarae, Neuadd Bentref,  
Ysgoldy, Garth Bach, Llyn Cob,  
Afon Twrch, Afon Lliw.  
Dyma fy mhentref bach i.

*Elsa Mair Blain, Allt y Gwine*

Yma troediodd O.M. un tro,  
yn ddigalon tua'r ysgol.  
Trio'i orau i roi Cymru ar y map.  
A dyma ni  
yn dal yma yn siarad ein hiaith,  
ein Cymraeg, - iaith ein cenedl ni.

# 'Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog'

gan Dewi T Davies

## HUGH EVANS (1854 – 1934)

[Cedwir pob dyfyniad yn y ffurf wreiddiol.]

Ganed Hugh Evans ar y 14eg o Fedi, 1854 yn Ty'n Rhos, Cwm Main, Plwyf Llangwm. Efo'i daid a'i nain a'i fam y'i magwyd yno; Jane Barnard oedd ei fam. Symudodd y teulu yno o Ty'n Gelynnen, Gellioedd yn 20au'r ganrif. Galwai llawer o bobl yn Ty'n Rhos gan fod ei daid, William Barnard, yn rhoi cymorth i bobl i lunio ewyllysiau ac i'w cyngori ynglŷn â'r dreth ac ati. Yn Ellsmere yr oedd o wedi cael ei addysg ac yn well Sais nag oedd o Gymro o ran ysgrifennu a darllen. Bu'n dir fesurydd ar un adeg. Gan fod cynifer o bobl Cwm Main ac Uwchaled yn dod yno, magwyd Hugh yn gwrando ar gyfoeth o straeon ar yr aelwyd, atgofion yn ymestyn yn ôl i ganol y 18fed ganrif.

Er ei bod yn wybyddus fod ei dad â'r un enw, nid yw ei fywyd yn hysbys i mi. Yng Nghyfrifiad 1851, cyn geni Hugh y mae un Isaac Lloyd, (11), ŵyr, a aned yn Nhloty Corwen, yn byw yn Ty'n Rhos efo William ac Ann, a neb arall. Erbyn Cyfrifiad 1861, pan oedd y teulu yn dal i fyw yn Ty'n Rhos yr oedd William ac Ann Barnard, y taid a'r nain, mam Hugh, sef Jane (45), Mary, (24) ei chwaer, Robert Barnard, (9), ŵyr arall, Hugh Evans, (6) ac Ellin Williams, wyres oedd yn fis oed. Wn i ddim beth oedd perthynas y wyres a'r wyrion â'i gilydd ond unig blentyn oedd Hugh. Mae'n sôn am ei nain, mam ei dad, yn byw yn Pentre Gwernffrwd, Cwmtirmynach. Ei hen daid oedd Dafydd Evans a roes ei enw i *Weirglodd Dafydd Ifan* yn Pentre heddiw. Roedd dau Bentre yn bod; yn Tŷ Canol, Pentre Gwernrwt yr oedd John a Margaret Evans yn byw, (beudy heddiw). Tybir mai'r ddau yma oedd rhieni Hugh, tad yr Hugh Evans sydd ganddon ni.

Yn ogystal â gwrando ar atgofion ymwelwyr yn Ty'n Rhos, yn blentyn, yr oedd Hugh, yn mynd dros *Bont Rhyd y Clwyde\** i fynychu Capel Soar lle'r oedd Michael D. Jones yn weinidog. Yno y dysgodd yr A, Bi, C gan gofio am yr adnod mewn llechfaen uwchben y drws:

*Gwylia ar dy droed pan fyddech yn myned i dŷ Dduw, a bydd barotach i wrando nag i roddi aberth ffyliaid. [Pregethwr 5:1].*

[\*Mae'r bont yr un enw yn union â Baile Atha Cliath (Gwyddeleg). Gweler y stori onomastig o ail gainc Y Mabinogi â Brân yn croesi Afon Llinon.]

Pan fu argyfwng yn y stâd a'r meistr tir mewn gwallgofdy, gorfu iddo fo, ei fam a'i daid a'i nain symud o Gwm Main a mynd i fyw mewn bwthyn o'r enw Ty'n 'rallt, yn yr ucheldir rhwng Moelfre Mawr a Hendre Arddwyfaen, Tŷ Nant. Yr oedd hyn yn 1861 pan oedd Hugh tua 6 neu 7 oed.



[Gwelir lluniau o Ty'n Rhos a gweddillion Ty'n 'rallt yn Y Ffynnon Arian (Cyfrol 1, Gwasg Dwyfor, 1996) gan Robin Gwyndaf, llyfr am ardal Llangwm.]

Mwynhaodd beth amser yn yr ysgol yng Ngherrigydrudion dan arweiniad yr ysgolfeistr, John Williams, oedd wedi cael addysg dda ac wedi bod yn cadw siop lyfrau yn y *Strand* yn Llundain. Ymadawodd Hugh â'r ysgol yn ifanc a gweithio fel wagner ar wahanol ffermydd cyn mynd i Lerpwl yn 1875 gan ddilyn llwybr llawer o bobl ifanc i chwilio am waith a bywyd newydd

Priododd Jane Williams, merch David a Sarah Williams, Pant-y-clai, Cynwyd yn 1878. Ganed pedwar plentyn iddynt: Hugh Barnard (1879) a ddaeth yn glerc yn y *Liverpool Steamship Company*; Evan Meirion (1880) a ddaeth i weithio at ei dad; Sarah Jane (1886) a briododd un William Williams FLA (llyfrgellydd); Hywel/Howell (enw'n wahanol mewn gwahanol gyfrifiadau) (1888) a ddaeth, maes o law, yn bartner arall at ei frawd a'i dad.



Capel Stanley Road wedi ei adfer yn 1956 yn dilyn distryw gan fomiau yn yr Ail Ryfel Byd. Cafodd ei gau yn 1996 a'i addasu yn swyddfeydd i Gyngor Sefton. Pencadlys i gwmni cyfreithiol mawr sydd yma, bellach.

Yn ystod ail hanner y 19eg ganrif daethai Lerpwl yn ganolfan Gymreig bwysig. Erbyn dechrau'r 20fed ganrif yr oedd mwy o Gymry Cymraeg yno nag oedd yn Wrecsam, Abertawe, Casnewydd a Chaerdydd efo'i gilydd! Dywed Hugh Evans ei hun yn Y Brython:

*'Dichon mai ar lannau'r Ferswy y mae'r cwmwd lluosocaf o Gymry a geir ond odid yn unman'*

Yn wir yr oedd ardal Kirkdale yn cael ei galw'n *Llangwm* gan Gymry'r ddinas!

Yr oedd nifer fawr o gapeli anghydfurfiol yn y ddinas yn cynnal cynulleidfaoedd mawr mewn gwasanaethau, cyfarfodydd gweddi, cymanfaoedd canu a phob math o weithgareddau diwylliannol. Daeth nifer o weinidogion a dreuliodd amser yn Lerpwl yn adnabyddus iawn, er enghraifft Henry Rees, o 1836, (brawd Gwilym Hiraethog); Owen Thomas, fu yno rhwng 1865 ac 1891 a John Williams, Brynsiencyn fu yno rhwng 1895 ac 1906. Cynhelid eisteddfodau mynych yno, yn cynnwys yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1900 ac 1929. Enillodd *Pedrog* (J.O.Williams, gweinidog yn Lerpwl) y gadair yn y naill ac yntau yn Archdderwydd yn cadeirio *Dewi Emrys* yn y llall. Bu Dewi, yntau yn weinidog am gyfnod yn Lerpwl yn ystod ei fywyd ... lliwgar.

Sefydlwyd cangen gynnar o *Gymdeithas Cymru Fydd* yn Toxteth yn 1893 a cheid ymweliadau gan wleidyddion Cymreig amlycaf y cyfnod fel D.Lloyd George a Tom Ellis. Yno, yn 1887 er enghraifft, y traddododd Tom Ellis araith bwysig o blaid sefydlu cynulliad wedi ei ethol i roi mesur o hunan-reolaeth i Gymru.

Yn Lerpwl y magwyd y brodyr adnabyddus J. Glyn Davies a George M. Ll. Davies; y naill yn yn dod yn Athro Celtaeg ym Mhrifysgol Lerpwl ac yn awdur cerddi Huw Puw ac ati, a'r llall, 'seraff yr efengyl seml' yn weinidog ac yn heddychwyr digymrodedd. Roedd eu mam, Gwen, yn ferch i'r pregethwr enwog John Jones, Talysarn.

Bu Saunders Lewis, wedi ei fagu yn y ddinas, yn cwblhau gradd mewn Saesneg a gradd ymchwil bellach ym Mhrifysgol Lerpwl. Er eu bod yn elyniaethus i'w gilydd bu yntau a J. Glyn Davies yn cydweithio am gyfnod. Owen Thomas, taid Saunders Lewis oedd awdur un o berlau llenyddol y 19eg ganrif *Cofiant John Jones, Talysarn*. Cylchoedd o fewn cylchoedd!

Yr oedd nifer o Gymry yn flaenllaw mewn busnes, yn enwedig y busnes adeiladu tai. Ceir nifer fawr o strydoedd wedi eu hadeiladu gan Gymry yn y ddinas a'i chyffiniau. Byddai Cymry yn cael eu cyflogi i wneud y gwaith hwn, hefyd a'u cofleidio'n Gymreig gan gymdeithas a chapel.

Bu nifer o newyddiaduron Cymraeg yn Lerpwl. John Jones oedd perchennog *Yr Amserau*, o 1843, o dan olygyddiaeth Gwilym Hiraethog (William Rees) a'r is-olygydd, Ieuan Gwyllt (John Roberts) yn ei olynu. Gwerthwyd y newyddiadur hwn i Thomas Gee yn 1859 a'i ymgorffori yn *Baner Cymru* yn Ninbych. Papur arall pwysig, wedyn, yn

yn parhau ►►►►



**‘Canmolwn yn awr ein gŵr enwog’**

**Hugh Evans**

(1854 – 1934)

↪ yn parhau ↪

Lerpwl oedd *Y Cymro* a berchnogid gan wasg Isaac Foulkes (*Llyfrbryf*). Bu'r T. Gwynn Jones ifanc ac R.J. Rowlands (Meuryn) yn newyddiadurwr i'r papur am gyfnod.

Y wasg hon a gyhoeddodd beth o waith Twm o'r Nant ac yn *Y Cymro* y caed *Enoc Huws* a *Gwen Tomos* gyntaf, fesul pennod, er i Daniel Owen roi'r hawlfraint i gyhoeddi'r nofelau'n gyfrolau i *Hughes a'i fab*, Wrecsam.

Pan gyrhaeddodd Hugh Evans Lerpwl, yn 1875 ac yntau yn un ar hugain oed, cafodd waith am flwyddyn yn gorffen adeiladu capel Cymraeg y Methodistiaid yn Stanley Road, Bootle. (Yr oedd yn flaenor yn y capel hwn ymhen deng mlynedd ar hugain.)

Gweithiodd wedyn yng ngwaith R.J. Jones, Vauxhall Works, yn gwneud gwadnau clocsiau (nid *clociau* fel sydd yn llyfr D. Ben Rees *Cymry Lerpwl*!).

Fel labrwr y'i disgrifir yng Nghyfrifiad 1881 ond yn *Stationer and Foreman in sawmills* yn 1891. Erbyn 1901 y mae'n Stationer/Printer ac yn 1911 yn *Printer and Publisher*. Dyna lwybr ei lwyddiant!

Dechreuodd werthu llyfrau Cymraeg wedi diwrnod gwaith yn 1885 ac erbyn 1889 yr oedd wedi agor siop yn gwerthu papur ysgrifennu a newyddiaduron yn Stanley Road. Yn ei ystafell wely, uwchben y siop y dechreuodd argraffu llyfrau yn 1896, a hynny yn 444, Stanley Road, Bootle. Wrth i'r gwaith gynyddu sefydlwyd *Gwasg y Brython* gan symud i 356-360, Stanley Road. Bu ei fab, Evan Meirion Evans yn brentis yng nghwmni Isaac Foulkes cyn ymuno â'i dad a phriodi Mattie, yn wreiddiol o Gynwyd. Yn 1904 trosglwyddodd Isaac Foulkes ei fusnes i'w fab, Arthur. Cyfunwyd y ddau gwmni o dan yr enw *Evans, Sons and Foulkes* tan 1909. *Hugh Evans a'i Feibion* oedd y cwmni, wedyn, yn cynnwys E. Meirion a Howell Evans. Argraffwyd cannoedd o lyfrau o bob math o 1897 hyd at 1977 pan ddaeth y cwmni i ben. Ar ei hanterth cyflogai'r wasg oddeutu 60 o bobl, y mwyafrif llethol yn Gymry. Yn 1940 dinistriwyd yr agraffdy gan fomiau'r Almaenwyr ac am gyfnod cynhyrchwyd y gwaith yn South Castle Street. Bomiwyd y siop yn Commerce Court, hefyd, yn 1941 ac ail agor yn Hackins Hey. Ail adeiladwyd yr argraffdy gan agor, eto yn Stanley Road yn 1948. Bu farw Hugh Evans yn 1934 ond yr oedd y ddau fab, E. Meirion a Howell Evans yn rheoli'r Cwmni cyn hynny. Cadwyd y Wasg yn y teulu gan eu dilyn gan M. Bronwen Evans ac Alun H. Evans.

Hawlia hanes y wasg erthygl gyfan ond gellir cyfeirio at rai awduron a llyfrau fel enghreifftiau yn unig.



- Cylchgrawn *Y Beirniad*, Golygydd John Morris Jones, 1912-20.
- Llyfrau plant a phobl ifanc, yn enwedig nofelau ditectif ac antur: Meuryn, George Breeze, Alwyn Thomas, John Pierce.
- Y rhan fwyaf o waith E. Tegla Davies.
- Gwaith J. Glyn Davies.
- Barddoniaeth Euros Bowen.
- Yr Eisteddfod Genedlaethol: *Rhestr Testunau, Rhaglen yr Wythnos, Cyfansoddiadau a Beirniadaethau* – dros nifer fawr o flynyddoedd.

Yn 1906 sefydlodd *Y Brython* yn newyddiadur wythnosol. Dechreuodd â newyddion lleol glannau Merswy a'r cyffiniau ond buan y daeth yn bapur cenedlaethol, i Gymru.

Golygydd cyntaf y papur oedd John Herbert Jones (*Je Aitsh*) a bu wrth y gwaith tan ei ymddeoliad yn 1931. Gwilym R. Jones fu'n Olygydd, wedyn, nes i'r papur ddod i ben ar drothwy'r Ail Ryfel Byd yn 1939.

Yn ogystal â newyddion o wahanol ardaloedd o Gymru a Lloegr yr oedd colofn farddol dan ofal *Pedrog* ('Ystafell y Beirdd'), adroddiadau o'r Senedd a chyfraniadau gan bobl fel Kate Roberts a *Gwrtheyrn* (Griffith Roberts: goruchwyliwr Tloty'r Bala). Cefnogi'r Blaid Ryddfrydol a wnâi'r papur yn y blynyddoedd cyntaf. Golygai hynny gefnogi'r Rhyfel, llywodraeth Lloyd-George a'r Ymerodraeth Brydeinig. Pan fu gwrthryfel y Pasg yn Iwerddon yn 1916, dyma oedd barn y papur;

*'... y rhain a gynlluniodd frad yn erbyn Lloegr, ac a geisiodd ddarostwng yr Ynys Werdd iddynt eu hunain ...'*

I fod yn deg yr oedd beirniadu ar Edward Carson yn ogystal, am ei weithredoedd yn arfogi Protestaniaid i ymladd yn erbyn y Mesur Ymreolaeth oedd wedi ei dderbyn gan Dŷ'r Cyffredin. Ar ôl y rhyfel daeth safbwynt y papur yn gynyddol genedlaetholgar, Gymreig, yn enwedig pan ddaeth Gwilym R. i'r tresi.

yn parhau ►►►►



**John Herbert Jones**

*Je Aitsh*, Golygydd *Y Brython* o 1906. O Dŷ ar y Graig, Talsarnau'n wreiddiol, prentisiwyd yn gysodydd ym Mhenbedw. Bu'n gweithio yn swyddfa'r *Herald* yng Nghaernarfon, wedyn yn Lerpwl, (*Y Cymro*) ac yn Wrecsam cyn cael ei gyflogi gan Hugh Evans. Cyhoeddodd 4 cyfrol yn seiliedig ar ei ysgrifau yn y papur: *O'r Mwg i'r Mynydd* (1913); *Swp o Rug* (1920); *Moelystota* (1931) a *Gwin y Gorffennol* (1938). Ymddeolodd yn 1931 a threulio amser yn darlithio yn yr U.D.A. Daliodd ati i fyw, yn ŵr gweddw, ym Mhenbedw tan 1941 cyn mynd i fyw at un o'i ferched ym Mhenygroes, Dyffryn Nantlle. Bu farw yn 1943.

**Gwilym R. Jones**

Gwilym R. Jones, Golygydd *Y Brython* o 1931 i'w derfyn yn 1939. O Dalysarn, Dyffryn Nantlle yn wreiddiol, gweithiodd ar nifer o bapurau yn ystod ei yrfa faith. Y cyntaf o'r tri sydd wedi ennill y Gadair, y Goron a'r Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yr oedd yn Lerpwl pan enillodd o'r goron am *Ynys Enlli* (Caernarfon, 1935). Cyhoeddodd ei gyfrol gyntaf o farddoniaeth pan oedd yn Lerpwl ac ennill ei gadair yn y cyfnod hwn (Caerdydd, 1938) am *Rwy'n Edrych Dros y Bryniau Pell*. Enillodd y Fedal Ryddiaith am nofel fer *Y Purdan* (Hen Golwyn 1941). Bu'n Olygydd *Baner ac Amserau Cymru* yn Ninbych a'r Bala (a enwyd *Y Faner* o'r 70au) am 38 mlynedd. Bu farw yn 1993 yn 90 mlwydd oed.



**'Canmolwn yn awr ein gwŷr enwog'**

**Hugh Evans**

(1854 – 1934)

↪ yn parhau ↪

Yn ogystal â bod yn ŵr busnes llwyddiannus a hyrwyddwr deunydd darllen o bob math, yr oedd Hugh Evans yn llenor cynhyrchiol ei hun. Ysgrifennai erthyglau i'r *Brython* yn rheolaidd, yn enwedig am lôn gwerin Edeirion ac Uwchaled. Cydnebydd gymorth parod ei frawd yng nghyfraith, Robert Roberts, Cynwyd, 'cofiadur pennaf yr ardaloedd'. Ymysg ei gyfrolau llai adnabyddus ceir *Camau'r Cysegr* (1926, hanes capel Stanley Road); *Hogyn y Bwthyn Bach To Gwellt* (stori i blant, 1930) a nifer o lyfrau darluniau ar destunau crefyddol ar gyfer plant. Ond y ddau waith adnabyddus o'i eiddo yw *Cwm Eithin* (1931) a *Y Tylwyth Teg* (1935).

Y mae *Cwm Eithin* yn seiliedig ar nifer o erthyglau a gyhoeddwyd yn *Y Brython* rhwng 1923 ac 1926 wedi eu talfyrru neu eu crynhoi yn y llyfr. Daeth yn llyfr poblogaidd iawn a chaed 5 argraffiad ohono hyd at 1949. Cyfieithodd E. Morgan Humphreys y gyfrol i'r Saesneg dan yr enw *The Gorse Glen* (1948). Yn yr argraffiadau mwyaf diweddar ceir map o'r lle y geilw Hugh Evans yn Gwm Eithin.

Darlun o'r gymdeithas wledig hon a geir yn y llyfr, yn ymestyn yn ôl i ganol y ddeunawfed ganrif a hynny o dan wahanol benawdau. Mae'n gofnod pwysig o ffordd o fyw. Er fod yma hiraeth am rai arferion a defodau, pwysleisir y tldi a'r gorthrwm a ddiodeffai'r werin, a'r frwydr barhaus i fyw.

Cyhoeddwyd *Y Tylwyth Teg* yn 1935, ar ôl ei farw, gan ei gyflwyno er cof am eu rhieni gan E. Meirion a Howell, y ddau fab. Ceir straeon o wahanol rannau o Gymru ond llawer o'r ardal hon, er enghraifft stori priodas Einion a thylwyth teg Mawnog Nant-hir, Cwmtirmynach a straeon amdanynt yn dawnsio ar y gweunydd ac yn y cylch ar Weirglodd Dafydd Ifan yn Pentre, led cae oddi yno. Gan ei nain, mam ei dad y cafodd o'r straeon yma. Mae'n cyfleu'r rhyfeddod sy'n y straeon gan barchu yr hyn a gredai cenedlaethau'r gorffennol ond ar yr un pryd y mae'n ymwybodol o astudiaethau gwyddonol, hanesyddol a chymdeithasegol am y tylwyth teg.

Nid oes amheuaeth nad oedd Hugh Evans yn Gymro twymgalon. Er mai yn Lerpwl yr oedd ei fusnes, cyfraniad i Gymru ac i'r Gymry oedd y busnes

hwnnw. Mae'n ymwybodol iawn o'r bygythiadau i'w wlad. Dyma ddyfyniad o'i eiddo o *Cwm Eithin*, er enghraifft.

*Onid yw yn amser i'n harweinwyr ddeffro i ddatblygu rhyw ddiwydiannau yng Nghymru? ... Beth fydd i weithiwr ei wneud ym mhen hanner can mlynedd eto? Ni fydd ein gwlad ddim ond parlwr i gyfoethogion Lloegr. A beth a ddaw o'r Iaith Gymraeg wedyn?*

Er ei fod yn ŵr busnes llwyddiannus, nid anghofiodd ei wreiddiau mewn tldi a'r angen am frwydro yn erbyn meistri tir baru. Samuel Roberts, Llanbryn-mair (S.R.), Gwilym Hiraethog a Sosialaeth R.J. Derfel sy'n llywio ei feddwl. Dyfynna o gerdd adnabyddus gan R.J. o *Caneuon* (Manceinion, 1892), yn *Cwm Eithin*.

*Mae'r ddaear yn perthyn i bawb  
Ai golud yn rhan i bob un;  
Fel awyr, goleuni a dwr,  
Anghenrhaid bodolaeth bob dyn;  
Dangoswch Frythoniaid i'r byd,  
Nac ydych yn llwfr nac yn ffol -  
Ymunwch i gyd fel un gwr,  
A mynwch y ddaear yn ol.*

Y mae o, hefyd, yn dyfynnu cwplod o gyfieithiad Iorwerth Glan Aled o gerdd enwog Thomas Hood 'Cân y Crys'.

*O Dduw! Paham mae bara'n ddrudd,  
A chnawd a gwaed mor rhad!*

Cyfeiria'n feirniadol iawn at snobyddiaeth rhai Cymry oedd yn aelodau yng Nghapel Stanley Road oedd a'u 'pennau wedi chwyddo' oherwydd eu bod wedi gwneud pres.

Bu farw Hugh Evans ym Mhen-y-Bryn, Cynwyd ar 30 Mehefin, 1934 a'i gladdu ym mynwent Longmoor Lane, Kirkdale, Lerpwl efo Jane oedd wedi'i chladdu yno rai blynyddoedd cyn hynny. Dylid cofio amdano fel un o gymwynaswyr mawr y genedl.

*Diolch i Robin Gwyndaf, Alaw Mai Edwards a Bethan Smallwood am arweiniad wrth lunio'r erthygl hon.*


**Y Rhifyn nesaf: Dewi Hafesb**

**Cwm Eithin**

Map E.G. Bowen o 'Gwm Eithin'. Rhoddwyd yr enwau iawn am Lanllonydd, (Llanfihangel G.M.) Llanaled, (Cerrigydrudion) a Llanfynydd, (Llangwm) yn ogystal â Chwm Annibynia / Cwm Dwydorth, (Cwm Main), ond ymestynwyd Afon Mynach!



**Ôl nodyn:**



Daeth Alaw Edwards o hyd i'r cofnod hwn mewn papurau a berthynai i un o'i chyndadau, Y Parch Humphrey Ellis, Tyddyn Eli, ymysg rhestr o rai a fedyddiwyd ganddo. Mae'n dweud 'Hugh son of Hugh Evans farmer by Jane Barnard (single, born at Tynrhos Llangwm September 14 1854' Yna, mewn llawysgrifen arall, 'Awdurd Cwm Eithin). Tybir mai nodyn diweddarach gan ei hen daid, David Jones, yw hwn.



# Pigion cyn y Pigiad! O, na bawn fel deryn bach!

gan Mari Tudor



Bu Mari Tudor o Gynwyd yn cadw dyddiadur yn ystod y cyfnod cythryblus y buom yn byw drwyddo ac yn disgrifio'r wefr a gafodd wrth sylwi, o'r newydd, ar y byd natur, yr adar a'r tymhorau, ac yn nodi pwysigrwydd cymwynasgarwch a gwerthoedd cymunedol yn ystod cyfnod o gyni. Dyma bigion o'i dyddiadur. Bydd yn sicr i adleisio teimladau llawer ohonom.

## Mawrth 2020

Daeth y llythyr swyddogol! Rhaid aros gartref am dri mîs i warchod rhag y Covid, clefyd erchyll all newid ein byd. Gall ladd nifer o bobl hyn a ninnau wedi cyrraedd y categori hwnnw a'r plant yn erfyn arnom i fod yn dra gofalus. Gwell fyddai ufuddhau i leihau eu pryder ...

## Ebrill 2020

Tair wythnos i mewn i'r cyfyngiadau dyma'r felan yn dangos ei ddannedd. Deffroais y bore yn beichio crio. Efallai i mi gael breuddwyd gâs a'm gadawodd yn hollol ddi-ffrwt. Fy nihangfa oedd codi'r ffôn ar ffrindiau, diolch amdanynt. Mae ffrindiau yn deall, gwranddo heb farnu a llwyddo i roi cyngor adeiladol. Ceisiaf wneud yr un gymwynas iddynt hwythau. ... Diflanodd y felan wedi diwrnod a sylweddolais pa mor lwcus ydyf mewn gwirionedd yn byw mewn ardal brydferth, rhydd o lygredd a bywyd gwledig yn hynod hamddenol. Eistedd, heb sŵn traffig parhaus, na sŵn sydyn awyren uwchben, a chaniatáu amser i wrando a sylwi yn fanylach ar fyd natur.

## Mai 2020

Un o'r profiadau mwyaf hyfryd a gefais oedd eistedd yn yr ardd ar bnawn heulog. Roedd na awel gref, ond nid yn oer. Eisteddais yn ôl i wrando ar y sisial oedd yn tarfu ar lonyddwch y dail gwyrdd, ffres newydd-anedig, ac yn sibrwd yn dawel yn ysgafnder yr awel. Roedd o'n sŵn anhygoel. Nid sŵn yn yr ystyr arferol o'r gair ond yn hytrach sŵn tawel, fel pe bai pob un ddeilen newydd ffres yn tawel gyhoeddi ei fod wedi ymddangos i ddatgan llawenydd Gwanwyn newydd. Sŵn oedd yn fy ngyrru i fyd tangnefeddus ymlaciol. Braff gwranddo ar natur ar ei orau.

## Gorffennaf 2020

Diddorol yw gwyllo'r adar, a'u harferion o gwmpas y bwrdd adar. Cânt gymysgedd amrywiol o fwyd iach gan gynnwys cnau mwnci, saim, hadau cymysg, pryfed sych, peli saim a hadau'r blodyn haul ac weithiau darnau o ffrwyth. **Y robin goch** yw'r un mwyaf selog. ... Daw'r **fwyalchen** a'i gymar heibio ... [a] gwelaf gip, bob yn hyn a hyn ar **y dryw bach**. Gwn ei fod yn swil ond fe ddaw yn ei dro o ryw gilfach yn y wal gerrig, nid i chwilio am damaid, ond i fusnesa am ychydig eiliadau, cyn brysio'n ôl i'w guddfan. Un gyda'r nos clywais sŵn sydyn yn dod o gyfeiriad y llogswr coed yn y gegin oedd heb ei danio ac wedi sylu gwelais symudiad sydyn ynddo. Agorais ffenestri'r gegin led y pen, yna agor drysau'r llogswr, ac ymhen eiliad ymddangosodd dryw bach, gan hedfan at sil y ffenest, aros eiliad ac edrych yn ôl cyn agor ei adenydd a hedfan i'w ryddid. Fore drannoeth roedd wrth ffenest y llofft yn edrych i mewn fel pe bai'n diolch am ei achubiaeth o'i antur i lawr y corn simdde.

... Er mai gwyllo'r adar aeth a'm bryd mae creaduriaid eraill wedi dal fy sylw a neb llai na'r **wiwer lwyd** felltith. Mae'n mynnu dringo'r bwrdd adar, er pob ymgais i geisio ei rhwystro, ac un diwrnod penderfynodd gyflwyno ei theulu bach hefyd i ddanteithion yr adar. Gwelais nifer o wiwerod haerllug yn hongian yn braff o'r cewyll bwyd. ...

## Mehafin 2020

Codi ar doriad dydd a nifer o wenoliaid yn gwibio'n ôl a mlaen uwchben y tŷ. Yn arferol nythant yn y garej gan fawa'n barhaus a'u llanast yn hollol amlwg. Ond eleni, credaf eu bod yn nythu'n y bondo a does dim cymaint ohonynt â llynedd. Y tywydd yn parhau yn anhygoel o braff. Ymddangosodd aderyn newydd ar fwrdd yr adar. Gwirionais wrth weld dwy **linos werdd** yn pigo'r peli saim a'r ffâ mwnci. Gobeithio eu bod am nythu gerllaw ac yr arhosant i mi gael sylwi ar eu harferion. ...

## Gorffennaf 2020

Mentro yn y car am dro (nid cyn belled â Cummings chwaith!) a natur yn amlygu harddwch y golygfeydd hynod a welem. Yn sydyn rhedodd y cadno coch mwyaf a welais ers tro efo coesau hirion, bron fel carw bychan, o flaen y car, ac ar draws y ffordd, gan ddiflannu yr un mor sydyn i'r llwyni trwchus gerllaw. Mae'n siŵr fod y llwynogod yn fwy mentrus erbyn hyn gan fod y ffyrdd yn wag o drafnidiaeth cyson.

## Medi 2020

Myfyrion uwch paned yn yr ardd pan ymddangosodd y **sigl-di-gwt** ar y lawnt. Galw am seibiant wrth fynd heibio ar ei thaith mae'n siŵr. Cawsom ymwelwyr annisgwyl y diwrnod o'r blaen. Penderfynodd nifer o fustych o gae cyfagos ddianc i lawr yr allt, ac fe drodd un ohonynt i mewn i'r ardd i gael blas ar ddail y goeden 'falau! Yn ogystal mynnodd un ddafad grwydredig dramwyo drwy'r blodau [a bu'r] malwod yn cael gwledd hefyd yn slefrian rhwng y blodau a'r llysiâu yn cnoi'r planhigion a blannwyd. Mae pob creadur byw yn meddwl fod na wledd o ddanteithion blasus ar gael yng ngardd Ty'n y Berth!

## Rhagfyr 2020

Llynedd (2019) er nad oedd cyfyngu ar ein rhyddid penderfynwyd ar ddiwrnod Dolig distaw, a buom am bicnic yn Nhomen y Mur, Trawsfynydd. ... Eleni, bwriadwyd mynd i fyny'r Bwlch am Ddinas Mawddwy gan aros i gael ein picnic gan obeithio cael edrych yn ôl ar ardal Penllyn a Llyn Tegid. Ond gan fod y niwl yn disgyn ar yr Aran Benllyn aethom ymlaen am y môr a chyrraedd Y Friog. Yno yn edrych ar ysblander Pont y Bermo, mewn llannerch ddiogel wrth ymyl rheilffordd y trê'n bach, buom yn gwledda yn y car gan ryfeddu at ogoniant Cader Idris a'i lechweddau moel. Nadolig heb weld y teulu, ond oherwydd y dechnoleg anhygoel bu cysylltiad gweladwy â hwy gyda'r nos a chawsom ddisgrifio a rhannu ein profiadau Nadoligaidd. Rhyfedd o fyd!

## Ionawr 2021

Dyma ni yng nghyfnod yr ail glo, a dim golwg fod yr haint ofnadwy am gilio o'n byd. ... Ers dechrau'r cyfnod clo cyntaf y llynedd, mae cyfeillion yr ardal wedi bod yn hynod o garedig a meddylgar. Cymdogion yn ffonio i sicrhau ein bod yn iawn. Anwen, sy'n nyrs yn sicrhau ein bod yn derbyn ein meddyginiaeth yn rheolaidd a hynny yn ddi-ffwdan, a diymhongar. Halen y Ddaear. Ond, mae 'na un sydd wedi ein gwyllo yn ddi-flino sef Delyth Thomas, Cledfan (neu Delyth Bytylog) fel yr adnabyddir hi gan bawb. Yn ddi-ffael mae Delyth, yr angel gwarcheidiol, wedi mynnu gwneud siopa ychwanegol i ni bob tro y byddai'n mynd i wneud ei siopa ei hun. Yn aml byddai un o'i phedwar plant yn ei chynorthwyo. Braff oedd cael gweld ei hwyneb siriol yn rheolaidd ac rydym mor ddiolchgar iddi am ei hymroddiad a'i charedigrwydd diymhongar. Mynnodd nad oedd yn drafferth yn y byd, er y gwyddom ei bod yn siopa i eraill hefyd.

## Ebrill 2021

Mae arwyddion fod y Gwanwyn ar dro, ond does dim tywydd braff parhâol eto. Codais fy nghalon o weld fod aderyn anghyffredin i mi ar y bwrdd adar – un bychan lliwgar efo ychydig o goch o gwmpas ei big, ac awgrym o liw melyn ar ei blu. Dw i bron yn siŵr mae **Nico** oedd o, a bu'n pigo o'r ddysgl hadau. Gan i ni gael ein breintio â'i bresenoldeb gyrrais am hadau nyjer arbennig ar ei gyfer er mwyn ei ddenu'n ôl. O'i weld meddylais yn syth am gerdd Cynan:

*Nico annwyl ei di drostai  
Ar neges fach i Gymru lân?  
Ei di o wlad y clwy a'r clefyd  
I ardaloedd hedda chân?*

Go brin y byddai Cynan yn mentro awgrymu glendid Cymru heddiw o ystyried y feirws a'n trybini Cofidaidd. Nid oes golwg fod Nico am ddychwelyd ond mae'r hadau yma i'w groesawu os y daw!

## Mai 2021

Mai siomedig o wlyb a dim cyfle i fyfyrion ymysg sŵn yr adar yn yr ardd ... [ond] mae rhyw fath o ryddid ar y gorwel. Rydym wedi derbyn y ddau bigiad Covid erbyn hyn. Heddiw, yr ail o Fehefin 2021 cefais fy neffro, fel ambell i fore arall, gan gôr y wîg a phenderfynais godi allan i'r ardd efo paned – 4.00 y bore! Cefais modd i fyw o wrando ar eu trydar cymhleth, dim cyd-symud fel y disgwylid gan gorau dynol! Yn hytrach roedd pob aderyn yn ymarfer ei alaw unigryw ac yn ymarfer ei nodau trosodd a throsodd gyda brwdfrydedd. Mae eu cyfathrebu prysur yn hyfryd i'r glust. Eisteddais yn dawel ar y fainc a glaniodd aderyn du ar garreg fawr ar ymyl y lawnt, a dyna lle bu yn trwsio ei blu yn ddiwyd am ryw dri munud cyn hedfan i ben wifren i ailgydio yn ei ganu ...

# Merched Gaergoed

*Roedd y Gaergoed, Glanyrafon yn le prysur iawn yn yr 80au a'r 90au, gyda Deiniol ac Alwena yn cadw trefn ar 5 o ferched. Tybed beth ydi hanes Ffion, Elain, Cerian, Cari ac Awen erbyn hyn?*



## Ffion

Dydw i ddim yn un i aros yn llonydd yn hir, mae yna gymaint i'w weld ac i'w wneud! Rydw i wedi bod yn hynod o lwcus o gael brofiadau anhygoel wrth drafeilio, gan gynnwys dathlu Gŵyl Ddewi hefo cymuned Gymraeg Hong Kong, dathlu diwrnod Nadolig hefo teulu yn Seland Newydd, gweld rhyfeddodau yn Vietnam, nofio hefo crwbannod yn y Maldives a thrio bwydydd diddordol yn America! Rydw i wedi bod yn gweithio i'r cwmni 'John Lewis' ers tua 12 mlynedd, ac wedi bod yn ffodus i gael gweithio mewn ardaloedd godidog dros y blynyddoedd. Mi ddechreuais fy ngyrfa yng Nghwesty'r Fach Ddeiliog yn y Bala, ac yna bues i'n gweithio yn y Castell ar Ynys Brownsea ger Poole, Stad Waitrose yn Lackford, a Clwb Odney yn Maidenhead. Erbyn hyn fi ydi'r prif gogydd yn eu gwesty yn Ambleside, ardal y Llnoedd. Ond er yr holl drafeilio, dwi dal wrth fy modd yn dod 'adre.'



## Elain

Rwyf wedi graddio o Brifysgol Aberystwyth gyda gradd mewn Amaethyddiaeth a Gwyddor anifeiliaid. Rwyf wedi cael amrywiaeth o swyddi dros y blynyddoedd, gan gynnwys Amaethwyr Corwen, Bala Bodyrepair, a Farmers Marts (R G Jones.) Yn ddiweddar rwyf wedi derbyn swydd fel Aseswr Cynllun FAWL, sef cynllyn mae Ffermwyr yn gwirfoddoli i fod yn rhan ohono. Yn dilyn cyfnod o hyfforddiant rydw i'n edrych ymlaen i fwrw iddi yn y misoedd nesaf! Rwyf bellach wedi ymgartrefu yn ôl yn Gaergoed gyda'r teulu; Gwion y gwr, a'r merched; Lleucu, Saran a Lliwen. Oes, mae llond ty o ferched yn Gaergoed eto!



## Cerian

Ar ôl graddio mewn astudiaethau ffilm a theledu yn Aberystwyth, treuliais 10 mlynedd yn gweithio gyda'r Urdd, fel swyddog gofal cwsmer yn Glan-llyn, ac fel swyddog ieuencid yn Fflint. Erbyn hyn, rydw i yn byw yn Nimbych, ac yn gweithio fel technegydd sydd yn cynnal a chadw offer tafarndai ar gyfer Heineken. Pan nad ydw i'n gweithio rydw i'n cymryd rhan mewn cystadleuthau dartiau, rydw i wedi cynrychioli Gwynedd yng nghynghrair Cymru a Lloegr, yn ogystal a thwrnament unigol ym Mhrydain ac Ewrop.



## Cari

Fe wnes i radd mewn milfeddygaeth ym Mhrifysgol Caeredin, ac ar ol graddio yn 2017, dechreuais weithio mewn milfeddygfa anifeiliaid anwes a cheffylau yn Lincoln. Yna symudais yn ol i Gaeredin i weithio fel ymgynghorydd mewn labordy, cyn dychwelyd adre i filfeddygfa cymysg ger Machynlleth. Rwyf bellach yn ôl yn yr Alban, yn gweithio gyda anifeiliaid anwes, fferm a cheffylau fel milfeddyg yn Aberdeen. Pan nad ydw i'n gweithio, rydw i'n mwynhau chwarae rygbi, a chrwydro llwybrau cerdded yr ardal gyda Mostyn y Corgi.



## Awen

Ar ôl graddio fel ffitotherapydd o Goleg Caerdydd, fe wnes i symud i Sir Benfro i weithio yn Ysbyty Llwynhelyg ble dwi yn arbennigo yn y maes Cyhyrsgerbydol. Rydw i wedi bod yn lwcus iawn o gael amrywiaeth o gyfleuon drwy chwarae rygbi, gan gynnwys cynrychioli rhanbarth y Scarlets a Gleision Caerdydd, a'r uchafbwynt o gael bod yn rhan o dim 7 bob ochor Dubai.

## CYNGOR PLWY' CYNWYD

Pigion o'r cofnodion.

**1922**

### Mater y goleuo trydanol

Cynnig E.W Morris fod papurau i'w rhoi yn y gwahanol fasnachdai yn gofyn am enwau a lleoedd fwriadant ddefnyddio trydan.

[Dim ond chwech o leoedd yn apelio am drydan, gadael y mater nes ceir rhagor o OLEUNI arno!]

### Trên Chwech

Plwyfolion yn gofyn am i'r trênn chwech sefyll yng ngorsaf Cynwyd, mantais i'r cyhoedd.

[Y Rheilffordd yn gwrthod i'r trênn aros yn ystod misoedd yr haf.]

### Heddeidwaid

Galw am heddeidwad i ymweld â Chynwyd mor aml â bydd modd.

### Trafnidiaeth Trwm

Gwahardd trafndiaeth trwm ar y ffordd o Gynwyd i Bont Felin Rhug.

**1924**

### Golau

John Edwards yn cynnig a Price Roberts yn eilio eu bod yn ffafriol i holi ynglŷn â phrisiau.

[Un yn cynnig ei roi ar y dreth, J. Edwards yn cynnig trefnu Cyngerdd.]

### Allt Coedtalwrn

J.W Jones yn gofyn oedd bosib gwneud lle i droliau a cherbydau basio ar Allt Coedtalwrn.

**1926 Medi 28**

### Dechrau goleuo'r pentref

Moses Williams dalodd am y polion. Trafodaeth ynglŷn a pha amser i ddiffodd y golau. Angen cynildeb.

**1930**

### Parti'r Cyngor

Gofyn i Roderick Owen ganu o leiaf un waith a Miss Nellie Thornton (Nellie Pearce) i wasanaethu gyda'r crwth.

### Allt y Porth

All motors prohibited.

## Eisteddfod T yr Urdd



**Llongyfarchiadau**  
i Erin Llwyd, Gelli, Glanrafon  
ar ei llwyddiant yn  
Eisteddfod T yr Urdd yn ddiweddar.  
Cafodd Erin y 3edd wobwr  
yn y gystadleuaeth Llefaru  
BI 7 i BI 9.



# 'Molawd Cynwyd' [1901]

**D**aethpwyd ar draws y penillion hyn o 'Molawd Cynwyd' mewn rhifyn o 'Yr Wythnos a'r Eryr' tra'n edrych drwy hen bapurau newydd yn y Llyfrgell Genedlaethol. O'i ddarllen ystyriwn faint o'r gerdd sy'n berthnasol i'n Cynwyd ni heddiw cant ac ugain o flynyddoedd yn ddiweddarach. Un siop heddiw, yn hytrach na'r llw a gyfeirir atynt yn y gerdd; un dafarn (er roedd yna ddwy tan yn ddiweddar iawn), a does yna 'run o'r melinau yn gweithio erbyn hyn er eu bod yn gartrefi diddos i deuluoedd yr ardal. Sonir am y ffatri wlân yn y gerdd ond am ffatri trelars Ivor Williams y soniwn ni erbyn hyn. Roedd y Saeson a phobl ddiethr wedi cael hyd i Gynwyd yn 1901, felly does dim wedi newid yn hynny o beth. Mae adeilad yr hen ysgol, a dau o'r capeli yn dal i sefyll er eu troi yn gartrefi bellach, ond credaf ei bod yn deg dweud fod hanfodion duwioldeb yn dal i fodoli yn y plwyf er efallai ddim mor ffurfiol o draddodiadol ag a fu, ac fe erys yr eglwys a'i gloc yn ganolbwynt i'r pentref hynaws hwn hyd heddiw.

Wedi ymchwilio ychydig darganfum mai gŵr o Ddolgellau oedd Ednant. Ei enw iawn oedd R.E. Jones, a sylwais ei fod yn gystadleuwr cyson ar farddoni yn eisteddfodau bach lleol yr ardal. Wn i ddim a oedd ganddo gysylltiad uniongyrchol â Chynwyd, ond roedd rhywbeth wedi ei ysgogi i ddisgrifio Cynwyd ar ffurf cerdd, ac fe ddaeth yn fuddugol mewn cystadleuaeth Eisteddfod Papur Pawb oedd â chysylltiad agos â'r 'Caernarfon and Denbighshire Herald'.

Roedd yr 'Wythnos a'r Eryr', yn gwasanaethu darllenwyr ardaloedd Penllyn, Edeyrnion, Uwchaled, Dyffryn Clwyd a Llangollen ac yn cael ei argraffu gan Humphrey Evans yn y Bala. Mae hen rifynnau wythnosol ar gael yn y Llyfrgell Genedlaethol o'r flwyddyn 1899 hyd 1910. Daeth Y Seren i gymryd ei le fel papur lleol yn y blynyddoedd oedd i ddilyn.

[LLUN: Y Felin Ucha, un o ddwy felin flawd ar yr Afon Trystion.]



## Molawd Cynwyd 1901 Cerdd fuddugol yn Eisteddfod "Papur Pawb" Caernarfon.

Wrth droed y Berwyn ffrwythlon,  
Yn nyffryn teg Edeyrnion,  
Yr erys Cynwyd, bentref bach  
Ar finion iach y Drystion

Islaw yn llawn rhyferthwy,  
Y llifa'r afon Ddyfrdwy,  
A phont rydd drosti gref, ddi-gryn  
A'i hanes sydd glodadwy.

Rhaiadrau mawrion ruthra,  
Uwchlaw y Felinucha,  
Niagara'r ardal ydynt hwy  
'Does neb drwy'r plwy' a wada.

Mae Pandy yno er's oesoedd  
Ar ddull yr hen amseroedd,  
A wna wlanenni'n wyn fel iâ  
Neu lili ha'r dyffrynoedd.

Mae yno lu o siopau,  
Tafarnau a melinau,  
A ffactran wna frethynau clyd  
I gadw'r byd rhag eisiau.

Lle enwog am bob rhinwedd  
Yw Cynwyd, a hirhoedledd,  
Mae rhai yn byw i fyn'd yn gant;  
Cyn myn'd i bant i orwedd.

Daw'r Saeson yn eu hadfyd  
I Gynwyd am eu hiechyd,  
A rhai Ysgotiaid uchel fri  
Ac ambell lanci hefyd.

Ysgoldy cadarn, cynhes,  
A erys mewn mawr rodres  
Ar ael y bryn, i gofio'r to  
Sydd wedi curo gormes

Mae yno demlau buddiol  
Ar ddull yr oes bresenol,  
Ac yn y pentref ar bob tu  
Mae llw o bobol dduwiol.

Ceir yno eglwys gryno  
Ac awrlais yn rhybuddio  
Holl deulu'r ardal er mawr loes  
Fod dyddiau'n hoes yn cilio.

awen  
meirion cyf

lyfrau  
disgiau  
cardiau  
crysau 'cowbois'  
cyflenwyr ysgolion  
a llyfrgelloedd  
gwasanaeth  
post byd-eang



01678  
520658

siop@awenmeirion.cymru  
25 Stryd Fawr, Y Bala

**J. OSWYN ROBERTS**

Parc, Bala, Gwynedd LL23 7YW



CONTRACTWR AMAETHYDDOL  
TARMACIO

CYFLAWNI A CHODI SIEDIAU  
PEIRIANNEG SIFIL

GWATH CONCRIT GWATH TIR  
PEIRIANNAU TURIO 1½-13 TUNNELL

☎01678 540510 / Mob. 07889929643

**D.H. JONES  
Cyf.**

Garej Rhandir  
Yst. Ddiwydiannol  
Y Bala



am wasanaeth gwerthu,  
trwsio a darparu darnau  
ar gyfer peiriannau  
Husqvarna, Stihl,  
Lister ac eraill  
☎01678 520666

**H. Williams**

Golygfa'r Moelwyn, Pant Llwyd,  
Llan Ffestiniog, Gwynedd, LL41 4PN

Gwasanaeth  
ar gyfer unrhyw waith  
CYNNAL A CHADW  
yn eich gardd



Ffoniwch:  
01766 762 329 /  
07513 949128

STORFA CANOLBARTH CYMRU

MID WALES  
STORAGE

Storfa Cartref a Busnes



www.midwalesremovals.co.uk

Ystafelloedd storio ar gyfer eich anghenion  
Monitro Diogelwch 24 awr — Wedi'i wresogi

Siop ar-lein: www.boxshopsupplies.co.uk  
Bocsys a 'bubblewrap' arlein

Ffôn: 01654 703592  
www.midwalesstorage.co.uk

Heol y Doll, Machynlleth,  
Powys SY20 8BQ







**PENTRE  
CYNWYD**  
(ddechrau'r 1900au?)

Hen dafarn y 'Prince of Wales'.  
Yn y cefndir mae fferm Moses  
Williams lle'r oedd corlannau  
i'r defaid i'w gwerthu yn y  
ffeiriau enwog.

Codwyd y 'Prince of Wales'  
yn 1846 wedi i dafarn yr  
'Otter' gau. Erbyn heddiw mae  
perchennog y Llew Glas wedi'i  
phrynu a'i haddasu i greu llety i  
ymwelwyr.

**CROESAIR 289**



Llongyfarchiadau i Emrys Griffiths, 5 Llwyn,  
Rhosgadfan, Caernarfon, LL54 7HN. Chi enillodd  
y mis yma. Daw eich tocyn llyfr trwy'r post maes o  
law. **Anfonwch eich ymgeision at Dylan Jones,  
Tanyfron, 105 Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23  
7AE** erbyn y 10fed o Orffennaf, 2021.

**ATEBION CROESAIR 288**

**AR DRAWS**

1. Hwylustod
5. Gwe
7. Nage
8. Mawrhydi
10. Ail-addasu
11. Rhifo
13. Dynwarediadau
16. Rhegi
17. Dihysbydd
20. Sosbenni
21. Anos
22. Nedd
23. Crughywel

**I LAWR**


1. Hendaidd
2. Ysgol
3. Trawsfeddiannu
4. Dwrn
5. Gwyniad
6. Egino
9. Oddiar
12. Diffyg
14. Negesydd
15. Urddasol
16. Rhosyn
18. Benyw
19. Beic

**AR DRAWS**

1. Blodau gwyllt. (9)
5. Cwpl o ferched. (3)
7. Awydd neu chwant. (4)
8. Yn llawn hwyliau. (8)
10. Cartŵn. (8)
11. Enw merch. (4)
13. Hunangofiant Mr. Picton? (2,3,8)
16. Gwneud sŵn cerddorol. (4)
17. Di-derfyn. (8)
20. Nid yw'n bell o'r eglwys. (8)
21. Aelodau gyda'r un diddordeb. (4)
22. Paradwys. (3)
23. Cymeradwy. (9)

**I LAWR**

1. Cawl neu bwdin reis. (4,3)
2. Mesur prawf, neu ddsbarth. (5)
3. Llyfr ffôn, er engraifft. (13)
4. Heb ddillad. (4)
5. Nodi achlysur arbennig. (7)
6. Siarad, ond neb arall yno! (5)
9. Rhedeg i ffwrdd. (5)
12. Gwlad Assisi a Perugia. (5)
14. "....A — yr hebog a'i ryw". (7)
15. Gyda'i gilydd ac o'r un farn. (7)
16. Mewn cegin, ond braint ei hennill. (5)
18. I achub hen rebel ——. (3,2)
19. Bwrdd crwn. (4)



Os am lun i ddathlu achlysur  
neu ddigwyddiad arbennig  
cysylltwch â

**EVAN L  
DOBSON  
Y BALA**

☎01678 521020  
Symudol:  
07905 535495  
E-bost: [evan.dobson@btinternet.com](mailto:evan.dobson@btinternet.com)

cannoedd o luniau lleol i'w gweld ar  
[www.lluniauadobson.com](http://www.lluniauadobson.com)